

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

## DATGANIAD CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

## STATEMENT OF ACCOUNTS FOR YEAR ENDED 31 MARCH 2021

**DS Jones CPFA**  
**Prif Swyddog Cyllid**  
**Chief Finance Officer**

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

### Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31<sup>ain</sup> Mawrth 2021

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<i>Adroddiad Naratif</i>	1 - 22
<i>Datganiad Llywodraethu Blynnyddol</i>	23 – 72
<i>Adroddiad Archwiliwr Annibynnol</i>	73 - 76

## **ADRODDIAD NARATIF**

### **Cyflwyniad**

Lleolwyd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ym Mlaenau'r Cymoedd, o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Dyma'r awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru, gyda phoblogaeth o tua 59,000 ac arwynebedd oddeutu 11,000 hectar gyda 2,300 ohonynt o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Yr Awdurdodau Lleol cyfagos yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (i'r gorllewin a'r de-orllewin), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (i'r dwyrain a'r de-ddwyrain) a Chyngor Sir Powys (i'r gogledd). Mae'r A470 (gogledd-de) a'r A465 (dwyrain-gorllewin) yn cwrdd i'r gogledd-orllewin o Ferthyr Tudful a hwy yw prif ffyrdd y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Fwrdeistref Sirol yn meddu ar ddaear gyfoethog a chymysgedd o gynefinoedd ansawdd uchel sydd wedi'u dylanwadu gan ddiwydiannau'r gorffennol. Ar ôl bod y ganolfan fwyaf cynhyrchiol yn y byd am greu haearn, mae arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y Fwrdeistref Sirol yn treiddio'n ddwfn.

Mae Merthyr Tudful, y brif dref, yn gorwedd tua 20 milltir i'r gogledd o Gaerdydd a hi yw'r brif ganolfan adwerthu a gwasanaethu ym Mlaenau'r Cymoedd a thrwy hynny, mae'n cyflawni rôl strategol allweddol.

### **Strwythur y Sefydliad**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 33 Aelod Etholedig sy'n cynrychioli 11 o adrannau etholiadol a'r cydbwysedd gwleidyddol ar 31 Mawrth 2021 oedd 18 Aelod Annibynnol a 15 Aelod Llafur. Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am gymeradwyo a mabwysiadu Cyllideb a Fframwaith Polisi'r Awdurdod, hynny yw y cynlluniau a'r strategaethau.

Y Cabinet sy'n gyfrifol am gymryd y rhan fwyaf o'r penderfyniadau pwysig ond rhaid iddynt fod yn unol â pholisiau a chyllideb gyffredinol y Cyngor. Mae'r Cabinet yn cynnwys 6 Aelod Cabinet dan gyfarwyddyd Arweinydd y Cyngor sy'n gweithredu fel Cadeirydd ac sydd hefyd â chyfrifoldeb am y Portffolio Dysgu. Yn ystod y flwyddyn, diwygiwyd Portffolios y Cabinet i'r canlynol:

- Dysgu
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad
- Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio
- Tai a Diogelu'r Cyhoedd
- Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r gwasanaethau sy'n dod o dan gylch gorchwyl Aelodau'r Cabinet ar gyfer "Dysgu" a "Gwasanaethau Cymdeithasol" wedi'u cynnwys yn y disgrifydd "Pobl a Pherfformiad" a nodwyd yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.

Mae'r gwasanaethau sy'n dod o dan gylch gorchwyl Aelodau'r Cabinet ar gyfer 'Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad', 'Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio', 'Tai a Diogelu'r Cyhoedd' a 'Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol' wedi'u cynnwys yn y disgrifydd 'Lle a Thrawsnewid' yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant

Mae'r Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio yn darparu graddau pellach o her a chraffu.

Mae'r Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio yn darparu graddau pellach o her a chraffu. Cefnogir yr Aelodau Etholedig gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor dan arweiniad y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr ac mae'n cynnwys y Prif Swyddogion canlynol:

- Y Prif Swyddog Dysgu – yn cefnogi'r Aelod Cabinet dros Ddysgu gyda chyfrifoldeb am ysgolion ac addysg
- Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol – yn cefnogi'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac yn gyfrifol am wasanaethau plant, gwasanaethau oedolion, diogelu, a gwasanaethau ieuencid
- Prif Swyddog Cynllunio a Gwasanaethau Cymdogaeth – yn cefnogi'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad ac yn gyfrifol am sbwriel a gwastraff, priffyrdd a pheirianeg, eiddo corfforaethol, cynllunio a chefn gwlad, gwasanaethau profedigaeth, cynnal a chadw tiroedd, glanhau strydoedd a rheoli fflyd
- Y Prif Swyddog Adfywio Cymunedol – yn cefnogi'r Aelod Cabinet dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd ac yn gyfrifol am adfywio cymunedol, cyflogadwyedd a diweithdra ac diogelu'r cyhoedd

Yn ogystal â hynny, cefnogir yr Aelod Cabinet dros Lywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol gan nifer o uwch swyddogion sydd hefyd yn gwasanaethu'r Tîm Rheoli Corfforaethol, sef y Prif Swyddog Cyllid, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Pennaeth Adnoddau Dynol a Phennaeth Cyfathrebu Corfforaethol.

### **Amcanion Llesiant Corfforaethol**

Cadarnhawyd bod Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor 2021/22 i 2024/25, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 3<sup>ydd</sup> Mawrth 2021, yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn cynnwys saith nod llesiant:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Wrth bennu ei Amcanion Llesiant, rhaid i'r Cyngor ddangos y ffordd y mae wedi cymhwyso'r egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth gyd-fynd â'r 5 ffordd o weithio sef: hirdymor, atal, integreiddio, cynnwys a chydweithio.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gofyn i'r cyngor gyflawni'i ddyletswydd statudol a chyhoeddi 'Datganiad Llesiant' a 'Chynllun Ffocws ar y Dyfodol'. Cymeradwywyd y dogfennau hyn gan y Cyngor ar 17<sup>eg</sup> Ebrill 2019. Mae'r 'Datganiad Llesiant' yn cyflwyno Amcanion Llesiant lleol y Cyngor ar gyfer y gymuned dros y cyfnod o bum mlynedd o 2017 i 2022, ac mae 'Cynllun Ffocws ar y Dyfodol' yn disgrifio sut a beth fydd y Cyngor yn ei wneud i gyflawni'r Amcanion Llesiant. Dyma Amcanion Llesiant lleol y Cyngor::

1. **Dechrau'n Dda** - mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau ac yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus
2. **Bywyd Gwaith** - mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith diogel a datblygol sy'n sefydlu Merthyr Tudful fel cyrchfan deniadol

3. **Llesiant Amgylcheddol** – mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad
4. **Byw'n Dda** – mae pobl yn cael y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da

Gwnaeth Cyngor 21<sup>ain</sup> Ebrill 2021 gymeradwyo'r dogfennau 'Datganiad Llesiant' a 'Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned', gan ailddatgan y 4 amcan llesiant lleol ar gyfer cyfnod 5 mlynedd 2017 i 2022.

### **Perfformiad yn Erbyn Amcanion Llesiant**

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2019/20 drwy awdurdod dirprwyedig gan y Prif Weithredwr a'i adrodd ar 30<sup>ain</sup> Hydref 2020 o dan 'Benderfyniadau Dirprwyedig'. Cafodd y dyfarniadau canlynol eu hadrodd yn derbyn yr amcanion llesiant:

- Dechrau Gorau i Fywyd – anfoddhaol
- Bywyd Gwaith – digonol
- Llesiant Amgylcheddol – digonol
- Byw'n Dda – digonol

Yn seiliedig ar y dyfarniadau a ddynodwyd yn y pedair thema llesiant, y dyfarniad cyffredinol oedd 'digonol' gyda mwy o gryfderau na gwendidau, ond bod angen gwella agweddau pwysig.

Y bwriad yw cyflwyno Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2020/21 i'r Cyngor llawn ym mis Hydref 2021. Yn ystod 2020/21 fodd bynnag, cafodd diweddariad ar berfformiad i bob un o'n pedwar thema llesiant eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Trawsnewid, Masnacheiddio a Gwasanaethau Corfforaethol yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ar gyfer pob thema yn seiliedig ar set o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau ar gyfer gwelliant. Ceir manylion yr adroddiadau hyn isod ac maent ar gael ar wefan y cyngor fan yma: [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk).

- Llesiant Amgylcheddol – Dyddiad y Pwyllgor 13<sup>eg</sup> Hydref 2020
- Byw'n Dda – Dyddiad y Pwyllgor 24<sup>ain</sup> Tachwedd 2020
- Bywyd Gwaith – Dyddiad y Pwyllgor 12<sup>fed</sup> Ionawr 2021
- Dechrau Gorau i Fywyd – Dyddiad y Pwyllgor 9<sup>fed</sup> Chwefror 2021

### **Datganiadau Ariannol Craidd**

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno Datganiad o Gyfrifon ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen 31<sup>ain</sup> Mawrth 2021. Cafodd ei pharatoi yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21.

Mae'r datganiadau ariannol – ynghyd â'r Datganiad o Gyfrifoldebau, Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol, a nodiadau esboniadol – i'w gweld ar dudalennau 24 i 101, ac maent yn cynnwys:

#### **Dadansoddiad o Wariant a Chyllido**

Mae'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllido yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau'r llywodraeth, rhenti, y dreth gyngor ac ardrethi busnes) gan awdurdodau lleol o gymharu â'r adnoddau hynny y mae awdurdodau yn eu defnyddio neu'u hennill, yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'n dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng cyfarwyddiaethau'r Cyngor. Cyflwynir yr incwm

a'r gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn llawnach yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.

#### Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant

Mae'r datganiad hwn yn hanfodol i ddeall gweithgareddau awdurdod lleol, gan ei fod yn nodi cost net am y flwyddyn o'r holl swyddogaethau y mae awdurdod yn gyfrifol amdanynt, ac yn dangos sut y mae'r gost honno wedi'i hariannu gan grantiau llywodraeth cyffredinol ac incwm trethdalwyr lleol. Mae'n dwyn ynghyd y gwariant a'r incwm sy'n gysylltiedig â holl swyddogaethau awdurdod lleol. Mae'n dangos y gost gyfrifyddu o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

#### Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar wahanol gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Dadansoddir y rhain fel "cronfeydd defnyddiadwy", sef y rhai a all gael eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau trethi lleol, a "chronfeydd anefnyddiadwy" eraill. Mae'r Datganiad yn nodi'r symudiadau i gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn ôl enillion a cholledion. Gwneir hynny'n unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol a'r addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y symiau y mae'n ofynnol i'w codi at ddibenion gosod y dreth gyngor (neu renti) am y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau'r Balans Cronfa Gyffredinol statudol yn ystod y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hynny.

#### Mantolen

Mae'r datganiad hwn yn hanfodol i ddeall sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar Ddyddiad y Fantolen gan ei fod yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae'r asedau net a gedwir gan yr Awdurdod (sef yr asedau, llai'r rhwymedigaethau) yn cyfateb i gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Mae'r cronfeydd wrth gefn mewn dau gategori:

- Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy – mae'r rhain yn gronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd, er enghraifft, gellir defnyddio'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyledion yn unig.
- Cronfeydd Wrth Gefn Anefnyddiadwy - mae'r rhain yn gronfeydd na all yr Awdurdod mo'u defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu, er enghraifft y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn, lle byddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau pe bai asedau'n cael eu gwerthu, a'r cronfeydd wrth gefn sy'n dal y gwahaniaethau amser a ddangosir yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd Wrth Gefn.

#### Datganiad Llif Arian

Mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r mewnlifau a'r all-lifau arian sy'n deillio o drafodion gyda thrydydd partiön at ddibenion referniw a chyfalaf. Mae'n dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerthoedd arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut y mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chyfwerthoedd arian trwy ddosbarthu llifoedd arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido.

#### Perfformiad Ariannol 2020/21

Mae strwythur yr Awdurdod yn cynnwys tair Cyfarwyddiaeth:

- Pobl a Pherfformiad

- Lleoedd a Thrawsnewid
- Costau Corfforaethol


Gellir gweld meysydd gwasanaethau'r Cyfarwyddiaethau hyn yn Adran Alldro Refeniw'r Gyllideb yn yr Adroddiad Naratif hwn.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos, yn fras, weithgareddau refeniw'r Awdurdod am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31<sup>ain</sup> Mawrth 2021, hynny yw, ffynhonnell a gwariant yr arian.

### O Ble y Daw'r Arian


	<b>£'000</b>	<b>%</b>
Grantiau Llywodraeth	131,249	69
Rhent a Thaliadau	8,738	5
Talwyr y Dreth Gyngor	24,755	13
Aldrethi Annomestig Cenedlaethol	18,582	10
Incwm Arall	5,103	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>188,427</b>	<b>100</b>

Yr eitem unigol fwyaf yw Grantiau'r Llywodraeth sy'n darparu 69% o'r cyfanswm, tra bod 5% yn dod o'r gwasanaethau a ddarperir trwy renti, ffioedd a thaliadau. Dim ond 13% o gyfanswm yr incwm a ddaw o'r Dreth Gyngor.



Sut y Caiff yr Arian ei Wario

	<b>£'000</b>	<b>%</b>
Costau Cyflogeion	79,032	44
Costau Rhedeg	90,475	50
Costau Ariannu Cyfalaf	6,629	4
Ardollau	3,111	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>179,247</b>	<b>100</b>




Costau rhedeg megis cynnal adeiladau, gweithredu cerbydau a phrynu cyflenwadau a gwasanaethau yw 50% o gyfanswm y gwariant, tra bo gwariant y gellir ei briodoli i gyflogeion yn cyfateb i 44%.

Y Gwasanaethau a Ddarperir

	<b>£'000</b>	<b>%</b>
Pobl a Pherfformiad	104,092	58
Lleoedd a Thrawsnewid	40,991	23
Costau Corfforaethol	34,164	19
<b>Cyfanswm</b>	<b>179,247</b>	<b>100</b>





### Canlyniadau a Adroddwyd yn y Datganiad Cyfrifon

Roedd y cyfansymiau ar gyfer incwm a gwariant yn yr adran flaenorol yn deillio o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 25, ond nid ydynt yn cynnwys:

- y praesept a gasglwyd yn y Dreth Gyngor ar gyfer Heddlu De Cymru (£5.018m ar gyfer 2020/21, Nodyn 11),
- cyfran yr Awdurdod o gyd-bwyllgorau (mae'r manylion i'w gweld yn Nodyn 40 y cyfrifon),
- grantiau cyfalaf a thrafodion (rydym yn adolygu ein prosiectau cyfalaf ar dudalen 11)
- cofnodion eraill nad ydynt yn arian parod sy'n ofynnol gan safonau cyfrifyddu (yn enwedig ar gyfer y rhwymedigaethau pensiwn yr ydym yn eu trafod ar dudalen 12).

Mae'r gwarged referniw net o £9.180 m (h.y. y gwahaniaeth rhwng y ffigurau incwm a gwariant a ddangosir uchod) yn cyd-fynd â'r alldro o £9.816 m a ddangosir yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid ar dudalen 24, oherwydd ein bod wedi cydnabod £0.636 m ychwanegol yn ein cyfrifon o'n cyfran ni o gyd-bwyllgorau.

**Alldro Refeniw i'r Gyllideb**

Mae alldro Refeniw'r Gronfa Gyffredinol i'r gyllideb ar gyfer 2020/21 fel a ganlyn:

Crynodeb	Cyllideb Ddiwygiedig 2020/21 £'000	Alldro £'000	Amrywiant	
			£'000	%
<b><u>Pobl a Pherfformiad</u></b>				
Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Swyddog Gwasanaethau	33,732	31,492	-2,240	-6.64
Dysgu, Prif Swyddog Addysg	49,297	49,072	-225	-0.46
<b>Cyfanswm</b>	<b>83,029</b>	<b>80,564</b>	<b>-2,465</b>	<b>-2.97</b>
<b><u>Lleoedd a Thrawsnewid</u></b>				
Adfywio Cymunedol	6,578	6,516	-62	-0.94
Gwasanaethau Cymdogaeth	10,908	10,263	-645	-5.91
Gwasanaethau Corfforaethol	1,533	1,433	-100	-6.52
Cyllid	3,109	2,987	-122	-3.92
Cyfreithiol	1,348	1,335	-13	-0.96
Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	545	551	6	1.10
Cyfathrebu Corfforaethol	186	194	8	4.30
<b>Cyfanswm</b>	<b>24,207</b>	<b>23,279</b>	<b>-928</b>	<b>-3.83</b>
<b><u>Costau Corfforaethol</u></b>				
Rheoli Corfforaethol - Gweithrediaeth	1,326	1,252	-74	-5.58
Awdurdod Corfforaethol	17,916	17,920	4	0.02
<b>Cyfanswm</b>	<b>19,242</b>	<b>19,172</b>	<b>-70</b>	<b>-0.36</b>
<b><u>Cyfraniadau / Ailgodi Taliadau</u></b>				
Dyraniadau Nad Ydynt yn Gronfeydd Cyffredinol	6	0	-6	0.00
Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol	94	40	-54	-57.45
Gwarged y Gronfa Gasglu	-850	-692	158	-18.59
Ffactor Swyddi Gwag Corfforaethol	681	0	-681	-100.00
Diswyddo ac EPP / Llithriant	706	706	0	0.00
Cyfraniad i'r Gronfa Wrth Gefn	300	0	-300	-100.00
Darpariaeth ar gyfer Ymrwmiadau Pellach	118	0	-118	-100.00
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,055</b>	<b>54</b>	<b>-1,001</b>	<b>-94.88</b>
<b>Gwariant Net (cyn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd)</b>	<b>127,533</b>	<b>123,069</b>	<b>-4,464</b>	<b>-3.50</b>
Trosglwyddiad i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	0	3,830	3,830	n/a
<b>Gwariant Net (ar ôl trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd)</b>	<b>127,533</b>	<b>126,899</b>	<b>-634</b>	<b>-0.50</b>

Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl uchod yn ffigurau gwariant net. Mae'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn adran perfformiad ariannol yr adroddiad naratif hwn yn ffigurau gros.

Ar gyfer 2020/21 mae gan y Cyngor warged refeniw o £4.464 miliwn cyn gwneud trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn. O ganlyniad i hyn, mae £3.830 miliwn yn cael ei drosglwyddo i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi a £634,000 i Gronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol fel a amlinellir isod.

<b>Disgrifiad</b>	<b>Gwerth £'000</b>
Cyfrif Gwarged Ysgolion	779
Ariannu'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella	802
Ymrwymadau Gwasanaethau Cymdeithasol	770
Dyfarniad Cyflog	696
Grwpiau Cymunedol a ariennir o'r Gronfa Waddol	300
Rhaglen Brentisiaethau	200
Ymrwymadau Gwasanaeth Penodol	283
Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol	634
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,464</b>

Dyma'r symudiadau mwyaf arwyddocaol o'r gyllideb i'r alldro:

### **Pobl a Pherfformiad**

**Plant sy'n Derbyn Gofal** – diffyg cyllideb net o £669,000 yn sgil lleoliadau preswyl ychwanegol (£1.068 miliwn), yn cael ei wrthbwysu'n bennaf gan warged cyllideb o £342,000 ar gyfer Asiantaethau Maethu Annibynnol yn sgil camau tuag at gofalwyr maeth mewnol yn hytrach nag asiantaethau annibynnol.

**Darpariaeth Gofal Annibynnol Allanol** – gwaged cyllideb net o £2.519 miliwn yn bennaf oherwydd galw is na'r disgwyl yng nghyfanswm yr oriau gofal ym maes Gofal Cartref Annibynnol (£426,000), newidiadau i becynnau gofal presennol a llai o alw na'r disgwyl am wasanaeth ym maes Lleoliadau a Gynorthwyr (£315,000), llai o alw na'r disgwyl am wasanaeth ym maes pecynnau Taliadau Uniongyrchol a llai o becynnau gofal a ffioedd cwsmeriaid mewn perthynas â thaliadau eiddo a roddwyd yn flaenorol ar eiddo cleientiaid mewn Sefydliadau Preswyl Annibynnol (£1.025 miliwn).

**Canolfannau Dydd** – gwaged cyllideb net o £155,000 yn bennaf mewn perthynas â llai o gapasiti ar gyfer cleientiaid mewn canolfannau yn sgil y pandemig gan olygu yr ymdopwyd â'r holl wyliau a salwch staff heb ddefnyddio asiantaethau / goramser.

**Plant ag Anableddau** – gwaged cyllided o £194,000 o ganlyniad i ddefnyddio llai o becynnau, costau gwarchod plant is ac incwm grant ychwanegol.

### **Trawsnewid a Lle**

**Gwasanaethau Cymdogol** – gwaged cyllideb net o £645,000 o ganlyniad i fwy o ffioedd a thaliadau Gwasanaethau Profedigaeth na'r disgwyl (£122,000), incwm ychwanegol a chostau eiddo is ym maes Cynnal a Chadw Tir (£83,000), oedi cyn cael fflyd ailgylchu newydd fel a gynlluniwyd ym maes Ailgylchu (£166,000) a chostau cyfleustodau is ym maes Swyddfeydd (£136,000).

**Cyllid** – gwaged cyllideb net o £122,000 yn bennaf mewn perthynas ag incwm grant ychwanegol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch gweinyddu Budd-dal Tai ac i ymgymryd â darnau penodol o waith ym maes Budd-daliadau.

**Costau Corfforaethol**

**Costau Ariannu Cyfalaf** – gwarged cyllideb o £340,000 o ganlyniad i lithriad yn y Rhaglen Gyfalaf gan arwain at dâl Darpariaeth Isafswm Refeniw is i refeniw a benthyca tymor byr i gynorthwyo gwariant cyfalaf ar gyfraddau llog llai na'r hyn a gyllidebwyd ar eu cyfer.

**Taliadau Budd-dal y Dreth Gyngor** – diffyg cyllideb o £293,000 o ganlyniad i geisiadau ychwanegol am gymorth ariannol gyda'r Dreth Gyngor.

**Cyfraniadau ac Ailgodi Taliadau**

**Ffactor Swyddi Gwag Corfforaethol** – gwarged cyllideb o £681,000 yn adlewyrchu arbedion staff mwy na'r disgwyl yn sgil yr amser a aeth heibio rhwng swyddi'n dod yn wag ac yna'n cael eu hail-lenwi.

**Cyfraniad i'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol** – gwarged cyllideb o £300,000 yn adlewyrchu newid i'r fformat cyflwyno mewn perthynas â chyfraniad uwch i'r Cronfeydd Cyffredinol.

**Alldro Cyfalaf i'r Gyllideb**

Dyma'r Alldro Cyfalaf i'r Gyllideb ar gyfer 2020/21:

	<b>Cyllideb Ddiwygiedig £'000</b>	<b>Alldro 2020/21 £'000</b>	<b>Amrywiant</b>	
			<b>£'000</b>	<b>%</b>
<b>Gwariant:</b>				
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif	<b>4,972</b>	4,989	17	0.34%
Addysg - Arall	<b>2,870</b>	2,740	(130)	-4.53%
Rhaglen Adfywio Ffisegol	<b>14,503</b>	12,616	(1,887)	-13.01%
Glan yr Afon	<b>1,000</b>	522	(478)	-47.80%
Peirianeg a Seilwaith Trafnidiaeth	<b>4,609</b>	3,946	(663)	-14.38%
Tir, Adeiladau a Chorfforaethol	<b>2,992</b>	2,418	(574)	-19.18%
Hamdden	<b>387</b>	385	(2)	-0.52%
<b>Cyfanswm</b>	<b>31,333</b>	<b>27,616</b>	<b>(3,717)</b>	<b>-11.86%</b>
<b>Ariannwyd Gan:</b>				
Benthyciadau	<b>7,331</b>	<b>6,726</b>	(605)	-8.25%
Grantiau a Chyfraniadau	<b>22,850</b>	<b>19,738</b>	(3,112)	-13.62%
Adnoddau'r Cyngor ei Hun	<b>1,152</b>	<b>1,152</b>	0	0.00%
<b>Cyfanswm</b>	<b>31,333</b>	<b>27,616</b>	<b>(3,717)</b>	<b>-11.86%</b>

Yn 2020/21, gwariodd yr Awdurdod £27.6 miliwn ar brosiectau cyfalaf o'i gymharu â'r Rhaglen Gyfalaf gynlluniedig o £31.3 miliwn.

Dyma'r symudiadau mwyaf arwyddocaol o'r gyllideb i'r alldro:

### **Rhaglen Adfywio Ffisegol**

**Ail-ddatblygu'r Orsaf Fysiau** – tanwariant o £235,000 am i arian grant pellach gael ei dderbyn yn hwyr yn y flwyddyn ariannol.

Mae'r tanwariant sy'n weddill yn ymwneud â sawl cynllun grant lle y gall grant gael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r cynlluniau'n cynnwys Adfer Canol Trefi yn sgil Covid £233,000, Trawsnewid Tref Cam 1 £892,000, Grant Gwella Eiddo Canol Trefol / Grant Byw £209,000 a Phorth Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd £300,000

### **Glan yr Afon**

**Glan yr Afon Cam 3** – tanwariant o £478,000 o ganlyniad i gostau dymchwel is na'r disgwyl ac oedi na ellir ei osgoi yn sgil presenoldeb ystlumod.

### **Seilwaith Trafnidiaeth a Pheirianeg**

**Difrod Stormydd** – tanwariant o £590,000 am fod grant yn cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

### **Tir, Adeiladau a Chorfforaethol**

Mae hyn yn ymwneud â sawl cynllun grant lle gall y grant gael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r cynlluniau'n cynnwys Cymryd Delweddau CCTV £70,000, Canolfan Dementia Bywyd y Cymoedd £21,000, Gwaith Glynmill ac Offer £75,000 a Biniau Ailgylchu ar y Stryd £130,000.

### **Iechyd Ariannol**

Ar 31<sup>ain</sup> Mawrth 2021 mae balansau a chronfeydd wrth gefn cyffredinol yr Awdurdod nad ydynt wedi'u clustnodi ar gyfer unrhyw ddiben, yn dod i £5.334 miliwn (31<sup>ain</sup> Mawrth 2020 - £4.7 miliwn), sy'n cyfateb â 4.0% o'r Gwariant Refeniw Net a Gyllidwyd gan y Cyngor ar gyfer 2021/22. Yn unol â Chylch Gorchwyl Bwrdd Cyllideb y Cyngor, y nod cyffredinol yw:

*“Cynnal balans digonol, iach ar gyfer y Cronfeydd Wrth Gefn, sef rhwng 3.5% a 4% o'r Gwariant Refeniw Net a gyllidebir yn flynyddol gan y Cyngor, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn ariannol hyfyw.”*

Mabwysiadwyd y gofyniad hwn yn ffurfiol gan y Cyngor ar 22 Mawrth, 2017, wrth iddo gymeradwyo'i Bolisi ar Gronfeydd wrth Gefn Corfforaethol, gan ganiatáu'r hyblygrwydd i:

- Ymateb yn ddigonol i'r risg o orwariant posibl ar gyllidebau mewn meysydd gwasanaeth anwadal
- Mynd i'r afael â goblygiadau ariannol yn sgil pwysau demograffig cynyddol
- Ymateb i'r gofyniad critigol am wariant 'untro' wrth gwrdd â blaenoriaethau corfforaethol
- Ymateb i ofynion llywodraethol a rheoleiddiol

At hynny, mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy pellach ar 31 Mawrth 2020 mewn perthynas â'r Gronfa Yswiriant (£2.092 miliwn), Balansau Ysgolion (£4.267 miliwn) a Chronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd (£13.165 miliwn). Y balansau cyfatebol ar 31 Mawrth 2020 oedd £1.921 miliwn,

£1.549 miliwn a £6.893 miliwn yn y drefn honno. Er mwyn cefnogi Awdurdodau Lleol drwy'r pandemig, sicrhodd Llywodraeth Cymru fod arian ychwanegol ar gael.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22, bu'r awdurdod yn cyllidebu am gynnydd o 4.42% ar ei wariant referniw net yng nghyllideb 2020/21 wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau net Llywodraeth Cymru i mewn i'r Setliad Llywodraeth Leol) yn sgil cynnydd o 4.64% yng Nghyllid Llywodraeth Cymru a chynnydd o 3.55% i'r Dreth Gyngor.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod 2021/22 i 2024/25 yn amlinellu'n glir yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod dros y tymor canolig.

### **Cyfleusterau Benthycia**

Bydd yr Awdurdod, pan fo'n briodol, yn benthycia gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (y PWLB), neu o'r Farchnad os ystyrir bod cyfraddau llog yn ffafriol, er mwyn rhannol ariannu prosiectau cyfalaf. Fel arfer, gwneir benthyciadau fel hyn ar sail hirdymor ac yn unol â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Yn sgil hynny, caiff cyfyngiadau awdurdodedig ar gyfer benthycia gan Awdurdodau Lleol eu pennu a'u cymeradwyo gan gyfarfod llawn o'r Cyngor. Ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2020/21, roedd benthyciadau i gefnogi gwariant cyfalaf yn dod o fewn y terfynau benthycia awdurdodedig a gymeradwywyd gan gyfarfod llawn o aelodau etholedig y Cyngor ar 4 Mawrth 2020.

Yn ogystal â hynny, efallai y bydd rhaid i'r Awdurdod, wrth reoli trafodion arian parod o ddydd i ddydd, gael benthyciad ar sail fyrdymor pan fydd ganddo ddiffyg ar ei falans arian ar unrhyw ddiwrnod penodol. Yn groes i hynny, gall yr Awdurdod hefyd roi benthyciad ar sail fyrdymor pan fydd ganddo warged ar ei falans arian. Mae sefydliadau a gymeradwyir ar gyfer trafodion byrdymor yn cynnwys y prif fanciau a chymdeithasau adeiladu ym Mhrydain ac awdurdodau lleol eraill.

### **Rhwymedigaethau Pensiwn**

Mae'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2020/21 yn cael ei lunio'n unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (yr IFRS) gyda'r cyfrifyddu ar gyfer "Buddion Ymdeol" yn seiliedig ar ddarpariaethau Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (IAS 19) sef "Buddion Cyflogaeth". Yn ôl darpariaethau IAS 19 sy'n ymwneud â Buddion Ôl-Gyflogaeth, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gydnabod ased/rhwymedigaeth net a chronfa bensiwn wrth gefn yn y fantolen ac yng nghofnodion y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sy'n ymwneud â symud asedau/rhwymedigaethau ar gyfer cynlluniau buddion diffiniedig (gyda'r cofnodion cysoni yn mynd yn ôl at gyfraniadau oedd yn daladwy at ddibenion y Dreth Gyngor trwy Ddatganiad Symudiad y Cronfeydd Wrth Gefn).


O dan IAS 19, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu ei rwymedigaeth pensiwn o ran sefyllfa'r diffyg ar y gronfa bensiwn. Y rhwymedigaeth ar ddiwedd y flwyddyn oedd £206.42 miliwn (£193.27 miliwn ar 31 Mawrth 2020). Mae'r Awdurdod yn talu cyfraniadau cyflogwr fesul cam er mwyn gwneud iawn am ddiffyg y gronfa bensiwn.

Ceir rhagor o fanylion yn Nodiadau 24, 36 a 37 o'r Datganiad Cyfrifon.

## Yr Hinsawdd Ariannol

Mae cynigion y Llywodraeth Ganolog i fynd i'r afael â'r diffyg a grëwyd gan fenthyciadau'r sector cyhoeddus cenedlaethol yn sgil yr argyfwng ariannol byd-eang, wedi arwain at lai o gyllid ar gyfer yr sector cyhoeddus yn y tymor canolig a hir.

Amlinellir setliadau refeniw'r Cyngor am y cyfnod 2006/07 i 2021/22 isod.



Mae'n amlwg bod y Cyngor wedi wynebu heriau ariannol sylweddol dros y cyfnod hwn gyda gostyngiad setliad blynyddol hyd yn oed cyn dechrau cyni. Ers 2011/12, profodd y Cyngor gyfnod o ostyngiadau cyllido digynsail wrth i'r Llywodraeth Ganolog gychwyn ar ei pholisi o gynni ariannol. Mae arferion gweithio mwy effeithlon wedi dod i'r brig wrth i ni ddarparu gwasanaethau sy'n ariannol fforddiadwy. Mae hyn wedi cynnwys parhau â'n polisiau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau gwirfoddol corfforaethol wrth inni symleiddio'r sefydliad i fodloni gofynion y dyfodol.

Roedd y cynnydd sylweddol o 4.85% a 4.64% a dderbyniwyd ar gyfer 2020/21 a 2021/22 yn ôl eu trefn i'w croesawu'n fawr yn dilyn bron i ddegawd o fesurau caledi. Ar hyn o bryd mae'n amhosibl rhagweld a fydd setliadau o'r maint hwn yn y dyfodol yn gallu cael eu cynnal neu am gael eu cynnal yn sgil y ffactorau anfesuradwy canlynol:

- Parhad o'r mesurau caledi y rhagwelir y bydd Llywodraeth Leol yn eu hwynebu yn y tymor canolig – fel y rhybuddiwyd gan Ddadansoddiad Cyllidol Cymru
- Effaith arian posibl Llywodraeth Leol yn y dyfodol o bwysau ariannol parhaus a brofwyd gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Yr ansicrwydd ynghylch goblygiadau posibl Brexit
- Mympwyon fformiwla ariannu Llywodraeth Leol mewn perthynas â newidiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn setiau data allweddol
- Yr ansicrwydd sy'n amgylchynu polisi ariannol y Llywodraeth Geidwadol o dan y Prif Weinidog Boris Johnson
- Goblygiadau sylweddol Covid-19 ar economi'r DU

Mewn amgylchedd o ansicrwydd ariannol, mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn cael ei drawsnewid o ran sicrhau ei fod yn addas i'r diben er mwyn bodloni heriau ariannol yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys

cysoni adnoddau prin â flaenoriaethau corfforaethol a nodau llesiant gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gyflenwi'n effeithiol ac yn effeithlon a'i gynnal a'i ddatblygu a'i wella ymhellach.

Ar hyn o bryd mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (y Cynllun Ariannol) 2021/22 i 2024/25 yn datgan fod y Cyngor yn wynebu gorfod dynodi a chyflawni gostyngiadau cyllideb o rhwng £5.264 miliwn a £7.294 miliwn ar gyfer 2022/23 a rhwng £11.628 miliwn a £13.740 miliwn ar gyfer y cyfnod 2022/23 i 2024/25.

Mae'r Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer cynnydd ariannol o rhwng 2% a 4% ar gyfer 2022/23 a 2% ar gyfer 2023/24 a 2024/25, ynghyd â chynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.55% dros gyfnod y Cynllun Ariannol ac mae ar waith â nodi cynigion i fynd i'r afael â'r diffyg a ragamcanwyd yn y gyllideb. Y mae'n glir bod y Cyngor yn wynebu sefyllfa ariannol heriol. Nid yw'r setliad refeniw dangosol (Mawrth 2021) yn cael ei ragamcanu ag unrhyw faint o sicrwydd yn sgil hinsawdd ariannol cyfnewidiol y mae Llywodraeth Leol yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd a chaiff ei gymhlethu ymhellach gan ansicrwydd yn sgil Brexit a Covid-19. Mae pob amrywiad o 1% o'r setliad a ragamcanwyd yn gyfwerth â thua £1 miliwn.

Nid oes disgwyl i Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2022/23 gael ei gyhoeddi nes Rhagfyr 2021 a rhagwelir y bydd yn effeithio'n sylweddol ar y gofynion tymor canolig am ostyngiadau cyllideb a ragamcanir ar hyn o bryd.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 i 2024/25 yn dynodi Rhaglen Gyfalaf ag arian craidd o £22.874 miliwn ar gyfer 2021/22 a £53.963 miliwn ar gyfer y cyfnod o 4 blynedd, gyda gwariant cyfalaf 2021/22 wedi'i ariannu gan Grantiau Cyfalaf (£1.566 miliwn), Benthycia (£20.658 miliwn) ac o adnoddau'r Cyngor ei hun (£650,000).

Yn ystod Chwefror 2020, achoswyd difrod sylweddol o ran llifogydd a difrod storm gan Storm Dennis mewn ardaloedd penodol yn y Fwrdeistref Sirol. Oherwydd hynny roedd yn angenrheidiol i'r Cyngor gyflwyno rhestr o waith atgyweirio cyfalaf i Lywodraeth Cymru a oedd yn gyfanswm o £8.453 miliwn am y cyfnod o dair blynedd 2020/21 i 2022/23. Hysbyswyd y Cyngor y bydd yn erbyn cymorth o £1.9 miliwn ar gyfer 2020/21 ond mae'n dal i aros am gadarnhad Llywodraeth Cymru o'r cymorth ariannol ar gyfer blynyddoedd dilynol.

Caiff adolygiad strategol o'r Rhaglen Gyfalaf ei chynnal i benderfynu a yw prosiectau cyfredol yn parhau'n flaenoriaeth yn dilyn Covid-19 a Storm Dennis. Os y caiff ei ragweld bod Covid-19 yn debygol o arwain at oedi prosiectau a chynnydd yng nghostau contractau, heb gymorth ariannol Storm Dennis Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn wynebu gwariant cyfalaf ychwanegol sylweddol a fydd yn galw am ariannu mewnol.

### **Risgiau Corfforaethol**

Mae gan yr Awdurdod Gofrestr Risgiau Corfforaethol er mwyn rheoli Risgiau Corfforaethol y Cyngor a allai effeithio ar ddarparu Nodau Llesiant y Cyngor a Blaenoriaethau ehangach y Cyngor, a sicrhau bod y risg y mae'r Cyngor yn ei hwynebu yn lleihau dros amser. I bob Risg Gorfforaethol yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, dynodwyd Math o risg, Swyddog Arweiniol y Tîm Rheoli Corfforaethol a Chynghorydd / Aelod Cabinet Arweiniol. Mae'r tabl isod wedi ei gymryd o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar gyfer 2020/21 ac mae'n rhoi crynodeb o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar gyfer deg Risg Gorfforaethol, gan gynnwys rhif y risg, y math o risg, disgrifiad, sgôr y risg, a'r newid o gymharu â'r llynedd. Cymeradwywyd Cofrestr Risgiau Corfforaethol 2020/21 gan y Cabinet ar 19 Mai 2021.



Rhif y Risg	Math o Risg	Disgrifiad o'r Risg	Sgôr y Risg (Medi 2020)	Sgôr y Risg (Ebrill 2021)	Cynghorydd Arweiniol / Swyddog Arweiniol y Tîm Rheoli Corfforaethol
1 (i)	Cyllid	Nid yw'r Cyngor yn mantoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn.	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 3 <b>Sgôr y Risg = 15</b>	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 2 <b>Sgôr y Risg = 10</b>	Y Cynghorydd Andrew Barry Prif Swyddog Cyllid
1 (ii)		Nid yw'r Cyngor yn ariannol gynaliadwy wrth symud ymlaen.	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 4 <b>Sgôr y Risg = 20</b>	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 3 <b>Sgôr y Risg = 15</b>	
2	Enw Da	Y risg bod y Cyngor yn methu â chynnal a diogelu ei enw da.	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 4 <b>Sgôr y Risg = 20</b>	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 3 <b>Sgôr y Risg = 15</b>	Cabinet Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, Ymgynghori ac Ymgysylltu
3	Ymosodiad Seiber	Y risg bod y Cyngor yn agored i ymosodiad seiber a allai achosi methiant catastroffig.	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 4 <b>Sgôr y Risg = 20</b>	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 4 <b>Sgôr y Risg = 20</b>	Y Cynghorydd Andrew Barry Prif Swyddog Cyllid
4	Cyrhaeddiad Ysgol	Y risg nad yw'r holl ddysgwyr yn perfformio yn ôl y lefelau disgwylidig.	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 5 <b>Sgôr y Risg = 25</b>	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 5 <b>Sgôr y Risg = 25</b>	Y Cynghorydd Lisa Mytton Prif Swyddog (Dysgu)
5 (i)	Capasiti	Y risg bod y Cyngor yn colli staff sydd â sgiliau a phrofiad helaeth ac yn methu â recriwtio staff sydd â'r gallu gofynnol i gyflawni eu rolau.	Effaith = 4 Tebygolrwydd = 4 <b>Sgôr y Risg = 16</b>	Effaith = 4 Tebygolrwydd = 3 <b>Sgôr y Risg = 12</b>	Y Cynghorydd Andrew Barry Pennaeth Adnoddau Dynol
5 (ii)		Y risg nad oes gan y Cyngor y capasiti cyffredinol i gyflawni canlyniadau a thargedau allweddol (e.e. bod gan y Cyngor lawer o Bwyntiau Dibyniaeth Unigol (SPODs)).	Effaith = 4 Tebygolrwydd = 4 <b>Sgôr y Risg = 16</b>	Effaith = 4 Tebygolrwydd = 4 <b>Sgôr y Risg = 16</b>	

Rhif y Risg	Math o Risg	Disgrifiad o'r Risg	Sgôr y Risg (Medi 2020)	Sgôr y Risg (Ebrill 2021)	Cynghorydd Arweiniol / Swyddog Arweiniol y Tîm Rheoli Corfforaethol
6	Cydymffurfiaeth	Y risg nad yw'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol, deddfau a rheoliadau.	Effaith = 4 Tebygolrwydd = 4 <b>Sgôr y Risg = 16</b>	Effaith= 4 Tebygolrwydd = 4 <b>Sgôr y Risg = 16</b>	Y Cynghorydd Andrew Barry Swyddog Monitro
7	Brexit	Y risg y caiff Brexit effaith economaidd andwyol ar y lefel genedlaethol a lleol a fydd yn ei thro yn cael effaith ariannol, strategol a deddfwriaethol negyddol ar y Cyngor, ac wedi hynny ar gyflawni gwasanaethau cyhoeddus.	Effaith = 4 Tebygolrwydd = 4 <b>Sgôr y Risg = 16</b>	Effaith = 3 Tebygolrwydd = 3 <b>Sgôr y Risg = 9</b>	Y Cynghorydd Lisa Mytton Dirprwy Brif Weithredwr
8	Diogelu	Y risg nad yw'r Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol a bod trefniadau diogelu'r Cyngor yn methu â diogelu plant, oedolion a staff y Cyngor.	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 3 <b>Sgôr y Risg = 15</b>	Effaith = 5 Tebygolrwydd = 3 <b>Sgôr y Risg = 15</b>	Y Cynghorydd Chris Davies Prif Swyddog – Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)
9	Perfformiad	Y risg bod rheoleiddwyr statudol y Cyngor yn cyflwyno argymhelliad ffurfiol i'r Cyngor ar gyfer gwelliant.	Effaith 4 Tebygolrwydd 5 <b>Sgôr y Risg 20</b>	Effaith 4 Tebygolrwydd 5 <b>Sgôr y Risg 20</b>	Cabinet Tîm Rheoli Corfforaethol
10	Covid-19	Bydd pandemig y coronafeirws yn cael effaith iechyd ac economaidd andwyol ar Ferthyr Tudful, ac yn ei dro yn effeithio ar holl swyddogaethau'r Cyngor a'r gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ledled y Fwrdeistref Sirol.	Effaith 5 Tebygolrwydd 4 <b>Sgôr y Risg 20</b>	Effaith 5 Tebygolrwydd 4 <b>Sgôr y Risg 20</b>	Cabinet Tîm Rheoli Corfforaethol

**GRWPIAU RISG WEDI'U**  
**CATEGOREIDDIO YN ÔL SGÔR Y RISG**

Cod Lliw	Risg	Sgôr y Risg
<b>Du</b>	<b>Catastroffig</b>	<b>20 - 25</b>
<b>Coch</b>	<b>Argyfyngus</b>	<b>12 - 16</b>
<b>Oren</b>	<b>Uchel</b>	<b>8 - 10</b>
<b>Melyn</b>	<b>Canolig</b>	<b>4 - 6</b>
<b>Gwyrdd</b>	<b>Isel</b>	<b>1 - 3</b>

### Brexit

Y mae lefel uchel o ansicrwydd yn parhau ynghylch effaith y penderfyniad gan Brydain i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro ac asesu'r risgiau posibl a'r effaith ar wasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu drwy Weithgor Brexit a thrwy eu cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

### Y Fargen Ddinesig

Mae'r Cytundeb Cydweithio mewn perthynas â chyflawni Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n cwmpasu 10 Awdurdod Lleol yn ne-ddwyrain Cymru, wedi ei lofnodi. Sefydlwyd y Cabinet Rhanbarthol ar 1 Mawrth 2017.

Mae'r Fargen Ddinesig yn darparu cyllid i gefnogi cynlluniau a fydd yn ysgogi twf economaidd y rhanbarth. Mae'r cytundeb â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn darparu £1.2 biliwn. Caiff £734 miliwn o hyn ei ddyrannu i'r Metro, a bydd y £495 miliwn sy'n weddill ar gael ar ffurf y Gronfa Fuddsoddi Ehangach.

Mae'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach yn cynnwys:

- grant o £375 gan Lywodraeth y DU i'w dalu dros 20 mlynedd, gyda blynyddoedd 1 i 5 yn grant refeniw o £50 miliwn, ac wedyn blynyddoedd 6 i 20 yn grant cyfalaf o £325 miliwn
- cyfraniad cyfalaf o £120 miliwn gan Bartneriaeth yr Awdurdodau Lleol i'w dynnu i lawr yn ôl yr angen.

Mae'r Cabinet Rhanbarthol wedi datgan mai nodau lefel uchel y Gronfa Fuddsoddi Ehangach yw creu 25,000 o swyddi newydd a £4 biliwn o fuddsoddiad y sector preifat. Gwnaed y buddsoddiad cyntaf yn y prosiect lled-ddargludyddion cyfansawdd, gan ddarparu benthyciad o £38.5 miliwn, i'w ad-dalu, sydd â'r potensial i greu 2,000 o swyddi a thros £380 miliwn o fuddsoddiad y sector preifat.

Cymeradwywyd Cynllun Busnes y Cytundeb Cydweithio gan bob un o'r 10 Cyngor ym mis Mawrth 2018, a chymeradwyodd Merthyr Tudful y Cynllun mewn cyfarfod o'r Cyngor ar 7 Mawrth 2018. £0.954 miliwn oedd cyfraniad cyntaf Merthyr Tudful i'r buddsoddiad cyntaf yn 2017/18 a thalwyd £0.485 miliwn pellach yn 2018/19. Ni chafwyd cyfraniad yn 2019/20 a thalwyd cyfraniad o £0.079 miliwn yn 2020/21.

## **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol sef datganiad ffurfiol sy'n cwmpasu'r holl systemau, prosesau a rheolaethau corfforaethol o bwys. Caiff ei graffu gan y Pwyllgor Archwilio cyn ei gymeradwyo gan y Cyngor.

### **Covid-19**

#### **Darparu Gwasanaethau**

Mae'n debygol fod addysg ein plant wedi cael ei heffeithio'n wael yn sgil cau ysgolion am gyfnodau yn ystod nifer o gyfnodau clo. Bydd yn cymryd amser i ddeall yr effaith gyflawn a bydd angen strategaethau i adennill tir a gollwyd o ran addysg ein plant. Rydym eisoes yn dechrau ble mae deilliannau a fodelwyd yn is na'r disgwyl ar gyfer sawl dangosydd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor eisoes wedi dechrau gweithio ar strategaeth ar gyfer gwelliant. Rhaid i'r rhain yn awr ymgorffori strategaethau i ail-ymgysylltu a bywiogi ymglymiad mewn addysg ar draws ein holl leoliadau.

Tra bo darpariaeth gofal cymdeithasol wedi bod o dan straen drwy gydol y pandemig, mae'n debygol y bydd pwysau ychwanegol o'r llwythi achos newydd yr adroddir amdanynt yn dilyn rhyddhau o'r cyfnod clo ac rydym yn dechrau o safle heriol o ran ein gwytnwch.

Dim ond nawr y mae'r canlyniad economaidd yn dechrau dod i'r amlwg. Bydd pwysau o fusnesau'n methu a chynnydd mewn diweithdra yn dod â gofynion pellach yn eu sgil ar wasanaethau sy'n wynebu'r gymuned, fel tai a darpariaeth budd-daliadau, a bydd hynny'n gwneud yr angen am adfywio economaidd hyd yn oed yn fwy pwysig. Yn yr adroddiad diweddar gan *Centre for Towns*, 'The effect of the COVID-19 pandemic on our towns and cities', Ebrill 2020, cafodd cyn drefi diwydiannol ag amddifadedd absoliwt uchel a llesiant cymdeithasol isel (dynodwyd Merthyr Tudful yn eu plith) eu dynodi i fod yn arbennig o agored i niwed yn eu hadferiad yn dilyn pandemig y coronafeirws.

Mae Cynllun Gostwng y Dreth Gyngor yn fwy na'r Gyllideb gan £293,000 mewn perthynas â'r galw ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, ac maen parhau i fod yn heriol yn ystod 2021/22. Mae cyfran fawr o'r hawliadau newydd yn sgil unigolion yn colli eu swyddi ac yn hawlio Credyd Cynhwysol, neu ostyngiad yn eu horiau sydd wedi arwain at geisiadau uniongyrchol i'r Cyngor am Gymorth y Dreth Gyngor. Gallai hefyd fod cynnydd pellach mewn hawliadau am Gymorth y Dreth Gyngor wrth i'r trefniadau ffyrlo presennol ddod i ben.

#### **Yr Economi Leol**

Mae'r gyfradd diweithdra ym Merthyr Tudful wedi dechrau gostwng yn awr yn sgil llacio'r cyfyngiadau symud a chyflwyno mentrau cyflogadwyedd newydd. Y gyfradd ddiweithdra bresennol ym Merthyr Tudful yw 5.9%, sy'n rhywfaint o welliant. Oddi mewn i'r ffigwr diweithdra hyn, mae rhai 18 i 24 oed wedi'u heffeithio'n anghymesur. Ym mis Mawrth 2020, y gyfradd ddiweithdra ar gyfer y garfan hon oedd 6.6%. Ym mis Ebrill, roedd wedi cynyddu i 11% gyda chyfanswm o 530 o bobl ifanc yn hawlio budd-daliadau. Mae'r ffigurau presennol yn dangos gostyngiad bach yn nifer y sawl sy'n hawlio budd-daliadau yn y grŵp oedran hwn, sef 10.9% gyda 505 o rai 18 i 24 oed yn hawlio budd-daliadau di-waith. Er bod hyn yn welliant, mae'r ffigwr hwn yn dal i fod yn destun pryder.

Mae ansicrwydd o hyd ynglŷn â chyflogaeth yn y Dref wrth i'r cyfyngiadau symud lacio. Ym mis Rhagfyr 2020, mae 26,600 o bobl yn y Fwrdeistref Sirol yn cael eu cyflogi. Mae 24,600 ohonynt mewn cyflogaeth

am dâl a 2,200 yn hunangyflogedig (mae hyn yn gynydd bach mewn cyflogaeth am dâl a gostyngiad bach mewn hunangyflogaeth er yr adroddiad diwethaf ym mis Tachwedd 2020). Ym mis Mai 2021, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 8,900 o'r 26,600 ar ffyrlo ar hyn o bryd. Nid oes sicrwydd faint o'r unigolion hyn fydd yn parhau mewn cyflogaeth pan ddaw'r cynllun ffyrlo i ben yn ddiweddarach eleni.

Mae'r Cyngor wedi gweinyddu amrywiaeth o gymorth uniongyrchol i fusnesau sy'n dod i gyfanswm o tua £37 miliwn ers y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020. Mae hyn yn ychwanegol at y pecynnau cymorth busnes uniongyrchol eraill a fu ar gael oddi wrth y Llywodraeth Ganolog a gweinyddiaeth ddatganoledig Cymru megis y Gronfa Cadernid Economaidd. Mae'r cymorth hwn yn cynnal llawer o fusnesau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, does dim sicrwydd faint o'r busnesau hyn fydd yn parhau i fasnachu pan ddaw'r cymorth hwn i ben. Ar yr adeg hon, nid yw'n bosibl meintoli'r effaith bellach gaiff hyn ar ddiweithdra.

Mae ymateb i'r cynnydd mewn diweithdra yn nodwedd allweddol o gynlluniau adfer a gwella'r Cyngor/ Bydd datblygu mentrau fel cynlluniau prentisiaethau yn hanfodol.

### **Gweithlu'r Cyngor**

Ble bynnag y bo'n bosibl mae cyflogeion y Cyngor wedi cael eu cefnogi i weithio gartref drwy brynu gliniaduron sy'n hanfodol i weithio'n gynhyrchol gartref. Cynhaliwyd cyfarfodydd o bell, ac roedd modd i reolwyr llinell gyfathrebu'n effeithiol ag aelodau'r tîm drwy ddefnyddio Microsoft TEAMS. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer morâl y staff a'u llesiant, wrth atal staff cyflogeion sy'n gweithio gartref rhag teimlo eu bod wedi'u hynysu. Mae gohebiaeth reolaidd oddi wrth y Prif Weithredwr a Chyfathrebu Corfforaethol hefyd wedi sicrhau y caiff cyflogeion glywed am unrhyw ddatblygiadau. Mae'r Adran Adnoddau Dynol hefyd wedi cynnal sawl arolwg staff, gan gasglu data ynghylch cynhyrchiant, effeithiolrwydd gweithio gartref, a llesiant cyflogeion yn gyffredinol.

Pan oedd y pandemig ar ei anterth, cafodd nifer o gyflogeion eu hadleoli i rolau hanfodol fel gweinyddu cynllun Gwarchod Pobl Agored i Newid a chynllun Profi Orlhain Diogelu. Yn ychwanegol, cafodd tua 170 o gyflogeion eu rhoi ar ffyrlo o dan Gynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU yn cynnwys cyflogeion arlwy ysgolion a chyflogeion gwasanaethau gorfodi.

### **Cadwyni Cyflenwi**

Nid yw'r Cyngor wedi profi unrhyw oblygiadau croes sylweddol i'r cadwyni cyflenwi o safbwynt gwariant referniw. Cafodd cyfarpar diogelu personol ei gaffael fel oedd yn ofynnol. Roedd cael gaffael ar ddigon o liniaduron i alluogi cyflogeion i weithio gartref yn broblematic yn sgil y ffaith bod llawer mwy o alw am liniaduron na'r cyflenwad.

Yn anochel, achoswyd oedi i brosiectau cyfalaf yn sgil oedi yn y gadwyn gyflenwi ac am i gontractwyr roi cyflogeion ar ffyrlo.

### **Sefyllfa Ariannol**

Yn anochel, mae pandemig y coronafeirws a'r nifer o gyhoeddiadau ynghylch cyfnodau clo ers 23 Mawrth 2020 wedi effeithio'n sylweddol ar economi'r Deyrnas Unedig. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi wynebu heriau ariannol sylweddol yn sgil costau ychwanegol, colli incwm, a chefnogi'r economi leol. Ac fel pob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru, mae'n ddibynnol ar Lywodraeth Cymru yn y tymor byr i ganolig i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol.

Ar gyfer 2020/21, derbyniodd CBS Merthyr Tudful wedi derbyn cyllid ychwanegol o bron i £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru i wrthbwysu costau ychwanegol a cholled incwm yn sgil y pandemig. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth ariannol hyd at 30 Medi ar gyfer 2021/22, ond mae'r sefyllfa'n fwy ansicr ar ôl hynny. Fodd bynnag, er bod y cyfyngiadau symud wedi llacio dros weddill y flwyddyn ariannol, mae'n anochel y bydd Awdurdodau Lleol yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol yn sgil costau ychwanegol a cholli incwm. Heb barhad yng nghymorth ariannol Llywodraeth Cymru, bydd Awdurdodau Lleol yn wynebu diffygion cyllideb sylweddol a fyddai'n golygu bod gofyn i'r Llywodraeth Ganolog lacio rheolau cyfarwyddiadau cyfalafu i alluogi i Awdurdodau Lleol gyfalafu costau refeniw er mwyn diogelu gwasanaethau lleol a chronfeydd wrth gefn y Cyngor.

Ataliwyd camau i Adennill y Dreth Gyngor ar gyfer Chwarter 1af 2020/21 yn unol â phob Awdurdod arall yng Nghymru. Ailgydiwyd yn y broses adennill yng nghanol mis Gorffennaf 2020, wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo lacio ymhellach ac wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith. Gyda chyfnodau clo pellach yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, ataliwyd y broses adennill unwaith yn rhagor, ac ni chychwynwyd ar achosion llys am beidio â thalu'r dreth Gyngor nes mis Chwefror 2021. Yr effaith ariannol yn 2020/21 ym Merthyr Tudful yw gostyngiad o 1.5% yng Nghyfradd Gasglu'r Dreth Gyngor o gymharu â 2019/20. Mewn termau ariannol, mae hyn yn gyfwerth â thua £450,000. Derbyniodd y Cyngor gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i wrthbwysu'r gostyngiad hwn yn y dreth gyngor a gasglwyd.

Yn dilyn effaith ofnadwy Covid-19 ar economi'r DU a chymorth ariannol sylweddol Llywodraeth Cymru i'r Awdurdodau Lleol a'r gymuned fusnes, mae'n anodd mesur sefyllfaoedd posibl ar gyfer setliadau refeniw yn y dyfodol. Digon yw dweud y gallai arwain at setliadau ariannol Llywodraeth Cymru sy'n fwy heriol nag a ragwelwyd. Am bob 1% yn llai o arian nag a ragwelwyd, bydd gan Ferthyr Tudful arbedion cyllideb o tua £1 miliwn y flwyddyn i'w ddynodi dros gyfnod y Cynllun. Mae hyn yn gosod pwysau pellach ar yr adnoddau hynny sydd eisoes yn dioddef o ran parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i'n cymunedau.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn y broses o ddynodi gostyngiadau cyllideb ar gyfer 2022/23 ac ar gyfer cyfnod 4 blynedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2021. Mae Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella 2020-25 y Cyngor (y Cynllun) yn dadlau dros newid ar draws y cyngor gan drawsnewid ar draws adrannau er mwyn cefnogi cynaliadwyedd. Mae'r rhaglenni gwaith trawsffurfiol a nodwyd yn y Cynllun yn cynnwys Trawsnewid Digidol a a'r Rhaglen Fasnachol. Er bod arbedion cyllideb posibl, gan gynnwys cyfleoedd cynhyrchu incwm, eto i'w meintoli, rhagwelir y bydd y ddwy raglen waith hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg cyllideb a ragwelir dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Bydd y Rhaglen Fasnachol yn archwilio cyfleoedd i fuddsoddi i greu incwm, arbedion ynni drwy'r Cynllun Rheoli Carbon ac arbedion ar swyddfeydd drwy Resymoli Ystadau. Gall Trawsnewid Digidol adeiladu ar arferion gweithio hyblyg a ddatblygwyd wrth ymateb i Covid-19, wrth gefnogi nod Rhesymoli Ystadau.

Wrth ategu'r agendâu Digidoleiddio a masnacheiddio, bydd gwasanaethau'n parhau i gael eu blaenoriaethu i sicrhau yr eir i'r afael â diffygion cyllideb a ragwelir a bod adnoddau'n cael eu dyrannu i'r gwasanaethau sy'n flaenoriaeth. Gall y blaenoriaethau sydd wedi'u diffinio yn y Cynllun a chanlyniadau'r 'Ymarferiad Capasiti' hefyd lywio a chryfhau'r gwaith o flaenoriaethu gwasanaethau.

## **Rheoli Llif Arian**

Mae Swyddogion Trysorlys yr Adran Gyfrifyddiaeth yn rheoli'r llif arian i gydymffurfio â Strategaeth Rheoli Trysorlys cymeradwy'r Cyngor. Er mwyn lliniaru unrhyw broblemau llif arian wrth i'r cyfnod clo ddechrau ddiwedd mis Mawrth 2020, darparodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol i Awdurdodau Lleol.

Ni chafwyd unrhyw broblemau llif arian o ganlyniad i Covid-19 wrth i'r Awdurdod dderbyn benthyciad tymor byr gan Awdurdodau Lleol eraill a gwneud buddsoddiad tymor byr gyda Swyddfa Rheoli Dyledion.

### Prif Risgiau i'r Awdurdod

Mae yno nifer o ffactorau anhysbys ac ansicr sylweddol wrth i'r adferiad o Covid-19 gyflymu. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Llinell amser Llywodraeth Cymru ar gyfer llacio'r cyfnod clo a chodi cyfyngiadau
- Y risg o gynnydd pellach i'r gyfradd heintio yn arwain at gyfyngiadau pellach
- Archwaeth cwsmeriaid yn ystod yr adferiad.
- Posibilrwydd o gynnydd mewn diweithdra a chanlyniadau hynny i'r economi leol, cynhyrchu incwm, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a chasglu'r Dreth Gyngor
- Goblygiadau cymdeithasol sy'n codi yn sgil cyfnod clo hir fel cam-drin domestig a phlant yn mynd i ofal, a'r effaith ariannol gysylltiedig
- Posibilrwydd o gostau uwch gan gontractwyr ar gyfer prosiectau cyfalaf yn sgil newidiadau angenrheidiol i arferion gweithredu a chadwyni cyflenwi heriol

### Cynlluniau Adfer

Mae Strategaeth Adfer yn cael ei datblygu gyda'r nod o sefydlu dull gweithredu ar draws y cyngor ar gyfer adfer y sefydliad. Cafodd y Strategaeth Adfer ei datblygu yn unol â gweithdrefnau Cynllunio at Argyfwng y Cyngor i reoli'r cyfnod adfer. Ymhlith yr egwyddorion allweddol a ddilynwyd wrth ddatblygu'r strategaeth mae:

- Cydnabod nad 'adfer' yw hwn i gyflwr blaenorol ar gyfer yr holl wasanaethau;
- Cydnabod y bydd y broses adfer yn cymryd amser sylweddol ac y bydd nifer o faterion sylweddol yn dylanwadu arni, ac na fydd o anghenraid yn llinol (gallai 'cyfnodau clo' neu reoliadau eraill gael eu cyflwyno sy'n effeithio ar wahanol wasanaethau mewn gwahanol ffyrdd ac ar amseroedd gwahanol ar fyr rybudd);
- Dynodi hyn fel cyfle nad yw'n debyg i unrhyw un arall i feddwl am y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu yn ei hanfod.

Mae'r sefydliad wedi symud ar gyflymder ac ar raddfa nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen. Mae'r hyn a ddysgwyd o hyn yn cael ei gofleidio a'i ddefnyddio i ailstrwythuro'r Cyngor.

Nid yw'n hysbys eto beth yw canlyniadau tymor byr, canolig a hir pandemig y coronafeirws, fodd bynnag, mae uwch reolwyr eisoes wedi dynodi risgiau gwasanaeth a fydd yn cael eu cynnwys wrth gynllunio busnes a'n cofrestr risgiau corfforaethol.

Mae Grŵp Adfer yn mynd i'r afael â themâu trawsbynciol a fydd yn ceisio gweithredu polisi a newid gweithdrefnol a fydd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn Awdurdod cadarn sydd ag arferion gwaith modern a'n bod yn gwneud defnydd mwy effeithlon o'n hystâd corfforaethol. Ymhlith y themâu allweddol mae:

1. Cynllunio gweithlu a gweithle.
2. Ailagor ardaloedd cyhoeddus.
3. TGCh ac arferion gweithio ystywyth.
4. Llesiant a chymorth i gyflogaion.

Sefydlwyd Grwpiau Adfer Economaidd ac Ysgolion sy'n bwydo i mewn i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Grŵp Adfer a'r Cynllun Gwella Corfforaethol.

### **Gwybodaeth Bellach**

Mae gwybodaeth bellach am y cyfrifon ar gael oddi wrth yr Adran Gyllid, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful. Rhan o bolisi'r Awdurdod o ddarparu gwybodaeth lawn am faterion yr Awdurdod yw hyn. Yn ychwanegol, mae hawl statudol gan aelodau o'r cyhoedd i archwilio'r cyfrifon cyn bod yr archwiliad yn cael ei gwblhau. Mae'r ffaith bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio yn cael ei hysbysebu ar Wefan yr Awdurdod ac yng Nghanolfan Ddinesig yr Awdurdod.





**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**

# **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/21**

---

*Medi 2021*

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

### **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/21**

#### **1. CWMPAS CYFRIFOLDEB**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y Cyngor) yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano'n briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod a chyhoeddi amcanion llesiant a nodi sut y bydd yn gweithio tuag at fodloni'r amcanion hynny gan ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn ffordd gynaliadwy i gyflawni'r weledigaeth gyffredin i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Felly mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr, pan y caiff penderfyniadau eu gwneud, bod y Cyngor yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf, gan gynnwys Llywodraeth Leol, ystyried y tymor hirach wrth lunio'u penderfyniadau a chydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru. Yn ôl y Ddeddf, mae'n ddyletswydd ar y cyrff dan sylw i osod amcanion llesiant sy'n cyfrannu, hyd y gallant, at nodau llesiant. Cafodd amcanion llesiant cyntaf y cyrff cyhoeddus eu gosod a'u cyhoeddi erbyn 31 Mawrth, 2017. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at fodloni'u hamcanion llesiant.

Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn gasgliad o gyrff cyhoeddus sy'n cydweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld ag ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yng Nghwm Taf. Mae gofyn i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardaloedd trwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb eang hwn, mae'r Cyngor yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei waith, a hwyluso i'w swyddogaethau gael eu cyflawni'n effeithiol, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Cyhoeddwyd canllawiau o'r enw *Delivering Good Governance in Local Government: Framework* (CIPFA/SOLACE, 2016) sy'n berthnasol i ddatganiadau llywodraethu blynyddol a gaiff eu paratoi

ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 ac wedyn. At hynny, cyhoeddwyd *CIPFA Guidance Bulletin 06 (Application of the Good Governance Framework 2020/21)* ym mis Chwefror 2021.

Mae gan y Cyngor God Llywodraethu Corfforaethol Lleol a ddiweddarwyd a'i gymeradwyo yn 2020/21.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn egluro'r modd y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â dogfen CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government: Framework* (2016) ynghyd â sut mae'n ateb gofynion Rhan 2 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau 2015.

## **2. DIBEN Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae llywodraethu yn ymwneud â'r modd y mae cyrff llywodraeth leol yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, i'r bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol.

Mae Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli gweithgareddau'r Cyngor. Mae hefyd yn ymgorffori'r modd y mae'n arwain y gymuned, yn rhoi cyfrif iddi ac yn ymgysylltu â hi. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro cyflawniad ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ac ystyried a yw hyn wedi arwain at well canlyniadau i'r dinesydd. Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw ac fe'i lluniwyd fel bod risg yn cael ei rheoli i lefel resymol. Ni all ddileu'r risg o fethu â chyflawni polisiâu neu'i amcanion yn gyfan gwbl, ac felly sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn unig y gall ei gynnig, yn hytrach na sicrwydd llwyr.

Mae'r system reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau wrth gyflawni polisiâu, amcanion llesiant a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Hefyd, mae'n gwerthuso pa mor debygol yw y caiff y risgiau hynny ei gwireddu, a'r effaith gysylltiedig pe byddent yn digwydd, ac yn nodi sut y caiff y risgiau eu rheoli.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith bob blwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd yn cael ei lywio gan waith a gynhelir gan asiantaethau allanol a threfniadau mewnol, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad.

Mae fframwaith llywodraethu wedi bod yn ei le yn y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2021, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Datganiad Cyfrifon.

### 3. EFFAITH PANDEMIG COVID 19

Dechreuodd cyfnod clo yn y DU ar 23 Mawrth 2020 mewn cam digynsail i geisio cyfyngu lledaeniad y coronafeirws. Roedd hyn yn dilyn gweithredu tebyg mewn gwledydd eraill ledled y byd. Cyflwynodd Llywodraeth y DU nifer cyfyngedig o resymau a fyddai'n caniatáu i bobl adael eu cartrefi. O ganlyniad roedd yn rhaid i lawer o siopau a busnesau nad oeddent yn hanfodol gau, caewyd ysgolion ac roedd yn ofynnol i'r holl weithwyr nad oeddent yn allweddol weithio gartref ble'r oedd yn bosibl. Cyfnod clo o 3 wythnos oedd i gychwyn, ond cafodd hyn wedyn ei estyn nifer o weithiau gyda rhywfaint o lacio ar gyfyngiadau ar wahanol gamau, ac roedd gwahanol reolau mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Cafodd pandemig byd-eang COVID-19 effaith ddigynsail ar gymdeithas yn ei chyfarwydd, ac mae'n dal i wneud. Arweiniodd hyn at newidiadau sylweddol o ran rheolaeth y Cyngor o ddydd i ddydd, natur ei weithredoedd a'r modd y maent yn cael eu cyflawni.

Cafodd ymateb y Cyngor i bandemig y coronafeirws ei reoli yn unol â threfniadau cynllunio at argyfwng y Cyngor. Gwnaeth y Cyngor newidiadau sylweddol mewn ymateb i'r pandemig a rheoliadau a chyngor cysylltiedig y llywodraeth, gan gynnwys:

- Cau ysgolion a chreu canolfannau ar gyfer plant gweithwyr allweddol
- Cyflwyno talebau prydu ysgol am ddim i'r rhai cymwys
- Talu miloedd o grantiau i fusnesau
- Cau nifer sylweddol o wasanaethau gan gynnwys parciau a chanolfannau ailgylchu
- Newidiadau i weithredu cartrefi gofal, gofal yn y cartref a gwaith cymdeithasol
- Symud cyfran fawr o staff y Cyngor i weithio gartref
- Cyflwyno trefniadau profi a threfniadau ar gyfer tracio ac olrhain
- Sefydlu tîm dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol
- Sefydlu Tîm Gwarchod Oedolion Bregus a pherthynas â sefydliadau cymorth y trydydd sector

Wrth i'r cyfyngiadau symud ddod i rym ledled y wlad, canslwyd yr holl gyfarfodydd ffurfiol gan gynnwys y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu ac Archwilio. Hyd yn oed os caniateir mynediad i bell fel rhan o Gyfansoddiad y Cyngor, mae mae'n ofynnol yn ôl Canllawiau Statudol Cyfarfodydd y Cyngor, a wnaed o dan Adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, na fydd cworwm gan unrhyw gyfarfod ble fo llai na 30% o'r rheini sy'n gymwys i fod yn bresennol, yn bresennol yn y prif fan cyfarfod. O'r herwydd, roedd y Mesur yn golygu nad oedd unrhyw gyfarfod o'r Cyngor neu ei is-bwyllgorau yn gworwm ar yr adeg y gweithredodd y Llywodraeth y cyfyngiadau symud.

O ganlyniad i'r angen i atal cyfarfodydd y Cyngor, roedd yn angenrheidiol bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn yn eu lle i sicrhau parhad busnes tra bo deddfwriaeth argyfwng y Llywodraeth Ganolog a Rheoliadau Lywodraeth Cymru yn cael eu cyflwyno.

Yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor, mae gan y Prif Weithredwr neu yn ei absenoldeb y Dirprwy enwebedig y pŵer dirprwyedig i weithredu, ar ôl ymgynghori â'r Aelod Cabinet priodol mewn perthynas ag unrhyw fater sydd, yn ei farn ef neu hi:

- yn gofyn am weithredu di-oed, ac
- nad yw'n cyfiawnhau cynnal cyfarfod arbennig o'r corff a fyddai fel arfer yn ystyried y mater neu sydd o'r fath frys neu argyfwng fel nad yw cyfarfod o'r fath yn bosibl; rhaid i achos o ddefnyddio'r fath bwerau dirprwyedig wedyn gael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet neu'r Cyngor fel sy'n briodol.

Yn achos materion sy'n cynnwys ymrwymadau ariannol, rhaid ymgynghori hefyd â'r Arweinydd, Swyddog Adran 151 a'r Prif Swyddog priodol.

Cynhaliodd Tîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor gyfarfodydd rhithiol dyddiol gan ddefnyddio dulliau adrodd sydd wedi eu hen sefydlu ar gyfer Cynllunio at Argyfwng. Roedd hyn yn caniatáu i faterion brys gael eu hystyried, gan ganolbwyntio ar gamau strategol yn ogystal â materion sy'n galw am wneud penderfyniadau mewn byr amser. Roedd y cyfarfodydd hefyd yn canolbwyntio ar feysydd risg allweddol i'r sefydliad yn ogystal â chymunedau Merthyr Tudful. Cadeiriwyd y cyfarfodydd gan y Prif Weithredwr Dros Dro. Cafodd unrhyw benderfyniadau a fyddai fel arfer yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet neu'r Cyngor eu gwneud drwy Bwerau Argyfwng y Prif Weithredwr Dros Dro a chafodd y rhain eu dogfennu a'u hadrodd. Roedd cyfarfodydd diweddar wythnosol hefyd yn cael eu cynnal yn rhithiol rhwng y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Llywodraeth Leol

(Coronafeirws)(Cyfarfodydd)(Cymru) a ddaeth i rym ar 22 Ebrill 2020 a oedd yn cynnwys:

- darpariaeth ar gyfer cysylltu-o-bell i gyfarfodydd yr awdurdod lleol, gan waredu'r angen am nifer penodol o aelodau i fod mewn unrhyw leoliad unigol gyhyd ag y bo, yn y man lleiaf, yr aelodau'n gallu clywed ei gilydd. Nid yw hyn yn atal fideogynadleda, ffrydio byw a dulliau cyfathrebu eraill lle y bo hyn ar gael.
- newidiadau i'r trefniadau gweinyddu sy'n cynorthwyo cyfarfodydd yr awdurdod lleol, yn cynnwys darparu ar gyfer nifer o weithgareddau i'w cyflawni'n electronig yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi'n electronig hysbysiadau am amser a lle'r cyfarfodydd, papurau cyfarfod, adroddiadau a chofnodion.
- cynnal hawl mynediad y cyhoedd drwy ddulliau electronig yn ystod y pandemig.

Gwnaeth y Cyngor gynnydd sylweddol ar ei raglen democratiaeth ddigidol. Caiff cyfarfodydd pwyllgorau (gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet) eu cynnal drwy blatfform digidol ac maent yn hygyrch i'r cyhoedd. Defnyddiodd y Cyngor gyllid allanol i sicrhau bod hyn yn parhau, gan gynnwys datblygu cyfarfodydd hybrid lle gall Aelodau Etholedig neu Swyddogion fod yn rhan o'r cyfarfod o bell neu yn y lleoliad. Gwnaed y datblygiad hwn fel rhan o gyflawni Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor.

Bu'n rhaid i'r Cyngor, fel llawer o sefydliadau eraill, newid y ffordd mae'n gweithio i ymateb i bandemig y coronafeirws. Mae hyn yn golygu y defnyddiwyd mwy o dechnoleg ddigidol, gan gynnwys datblygu seilwaith a defnyddio mwy o galedwedd a meddalwedd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor weithio'n wahanol wrth symud ymlaen.

Gwelwyd oedi mewn rhai meysydd busnes wrth ymateb i'r pandemig, ond ni chafodd hyn effaith sylweddol ar y Cyngor, am i drefniadau gwahanol gael eu cyflwyno. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y rheoleiddwyr ynglŷn ag ymateb y Cyngor i'r pandemig.

Er mwyn ymateb i'r pandemig, datblygodd y Cyngor restr adnoddau, sy'n cynnwys ei staff. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i fonitro capasiti a sgiliau'n effeithiol ac effeithlon a, lle y bo angen, ailddyrannu staff ac adnoddau eraill i ddiwallu anghenion ein trigolion a blaenoriaethau'r Cyngor.

Darparodd Llywodraeth Cymru nifer o grantiau penodol drwy ei Chronfa Galedi i dalu am gostau ychwanegol Awdurdodau Lleol – i dalu costau yn gyffredinol ac wedi'u targedu at feysydd penodol fel gofal cymdeithasol i oedolion a chwrsela ysgolion. Crynhowyd costau ar draws y Cyngor er mwyn gallu derbyn y grantiau hyn. Ceir hefyd effaith colli incwm ar ffurf ffioedd a thaliadau, sy'n creu pwysau ychwanegol.

Roedd yr arian ychwanegol hwn gan Lywodraeth Cymru yn talu am yr holl bwysau ariannol ychwanegol cymwys o ddaeth o ganlyniad i'r pandemig, a oedd yn dod i gyfanswm o tua £10 miliwn.

Gweithredodd y Cyngor ar unwaith i gydweithio rhwng adrannau mewnol ac â phartneriaid allanol (yn cynnwys trefniadau presennol a rhai newydd) i ddiwallu anghenion ei drigolion. Enghraifft o hyn yw'r ffaith mai'r Cyngor a fu'n perfformio orau o ran gweinyddu grantiau Llywodraeth Cymru.

Fel Cyngorau eraill, defnyddiodd y Cyngor arian ychwanegol i ddiogelu ei sefyllfa ariannol. Defnyddiodd y Cyngor arian allanol ychwanegol hefyd i gyflawni mwy fel rhan o'i Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella. Gwelodd y Cyngor fwy o ymgysylltu ar draws ei dîm rheoli corfforaethol a'r Cabinet yn ystod y pandemig.

Defnyddiodd y Cyngor dechnoleg ddigidol i sicrhau ei fod yn dal i gyflawni ei wasanaethau. Mae hyn hefyd yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori. Addaswyd system deffoni'r Cyngor i gynorthwyo sut mae pobl yn cysylltu â'r Cyngor. Gwnaed gwelliannau i gysylltiadau rhwng gwasanaethau i sicrhau bod ymgysylltiad â'r cyhoedd yn parhau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sawl sydd heb fynediad i blatfformau digidol. O ganlyniad, llwyddodd y Cyngor i barhau i ymgysylltu, ond y bwriad yw ailgyflwyno dulliau wyneb yn wyneb (yn ychwanegol at y gwelliannau yma) pan fydd hynny'n ddiogel. Fel rhan o'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella, gwnaeth y Cyngor fwy i ymgysylltu â thrigolion y Fwrdeistref Sirol, a'u cynnwys, ynghyd â deall effeithiolrwydd y dulliau gweithredu yma. Mae dangosfwrdd corfforaethol y Cyngor (a ddatblygwyd fel rhan o'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella) hefyd yn monitro canmoliaeth a chwynion. Mae'r data yma'n bwydo i mewn i sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â thrigolion. Lluniwyd taflenni ffeithiau ynghylch sut yr ymatebodd y Cyngor i'r pandemig a bu'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid ynghylch sut mae rhaglenni gwaith allweddol (e.e. profi torfol) yn cael eu cyfathrebu.

Mae'r Cyngor hefyd wedi chwarae rôl allweddol wrth gefnogi'r Gwasanaeth Profi, Olrhain Diogelu, yn ogystal â chyflawni'r Rhaglen Profi Tref Gyfan gyntaf yng Nghymru, a Rhaglen Frechu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a gweithredu ail gyfnod y Rhaglen Profi Gymunedol. Nid oedd y gwasanaethau ymateb brys hyn yn bodoli'n flaenorol, ac roeddent yn dangos gallu'r Awdurdodau i gyflawni atebion gwasanaeth newydd mewn partneriaeth, a hynny yn ôl amserlen eithriadol o heriol.

Ym mis Mehefin 2020, sefydlodd pob Awdurdod Lleol unigol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ei ddarpariaeth Profi, Olrhain, Diogelu ei hun. Roedd y ddarpariaeth newydd hon yn cael ei chydlynu yng Nghwm Taf drwy Grŵp Goruchwylio Strategol Rhanbarthol. Creodd pob Awdurdod y gwasanaeth newydd drwy adleoli staff presennol ac ategu hynny gan gyflogeion dros dro. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn, daethpwyd â'r gwasanaeth ynghyd ar lefel rhanbarth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Ym mis Tachwedd 2020, cyflawnodd yr Awdurdod y Rhaglen Profi Tref Gyfan gyntaf yng Nghymru fel rhan o beilot Cwm Taf Morgannwg. Y ddarpariaeth oedd yr ail o'i bath ym Mhrydain, yn dilyn y peilot yn Lerpwl.

Fel rhan o'r peilot a barodd am bump wythnos, daeth adnoddau milwrol a bron i gant o staff wedi'u hadleoli o'r Cyngor ac Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful.

Roedd cyflawni'r Rhaglen Frechu unwaith eto yn dangos capasiti datblygedig iawn i gyflawni drwy bartneriaeth rhwng iechyd, y sector gwirfoddol a'r Cyngor. Cafodd staff eu hyfforddi a'u secondio a darparwyd llawer o gymorth logisteg a chynllunio at argyfwng. Yn cydreded â'r

rhaglen frechu, cynhaliodd yr Awdurdod ail gyfnod o brofi cymunedol a dargedwyd at gymunedau mwyaf difreintiedig y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r ffordd hon o weithio yn cydweddu â Chynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor a chaiff ei datblygu ymhellach wrth i'r Cyngor adfer o'r pandemig a pharhau ar ei daith o drawsnewid a gwella.

## **Adfer**

Cafodd Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella ei ddatblygu, a'i nod yw sefydlu dull gweithredu ar draws y cyngor o fynd i'r afael ag adfer y sefydliad. Datblygwyd y Cynllun yn unol â gweithdrefnau Cynllunio at Argyfwng y Cyngor wrth reoli'r cyfnod o adfer. Ymhlith yr egwyddorion allweddol a ddilynwyd wrth ddatblygu'r strategaeth mae:

- Cydnabod nad yw hyn yn 'adferiad' yn ôl at gyflwr blaenorol ar gyfer yr holl wasanaethau;
- o Cydnabod y bydd y broses adfer yn cymryd amser sylweddol ac y bydd nifer o faterion sylweddol yn dylanwadu arni, ac na fydd o anghenraid yn llinol (gallai 'cyfnodau clo' neu reoliadau eraill gael eu cyflwyno sy'n effeithio ar wahanol wasanaethau mewn gwahanol ffyrdd ac ar amseroedd gwahanol ar fyr rybudd);
- Dynodi hyn fel cyfle nad yw'n debyg i unrhyw un arall i feddwl am y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu yn ei hanfod.

Mae'r sefydliad wedi symud ar gyflymder ac ar raddfa nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen. Mae'r hyn a ddysgwyd o hyn yn cael ei gofleidio a'i ddefnyddio i ailstrwythuro'r Cyngor.

Nododd y rheolwyr risgiau i wasanaethau yn sgil y Pandemig. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn eu gwaith cynllunio busnes (e.e. cofrestr risgiau gweithredol a chynlluniau parhad busnes) a chofrestr risgiau corfforaethol y Cyngor. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i ystyried dulliau gweithredu'n seiliedig ar risg, a chynhaliwyd mwy o adolygiadau o risgiau eleni. Fodd bynnag, fel yn achos Cynghorau eraill ac yn wir sectorau eraill, nid yw'n hysbys eto beth fydd effeithiau'r pandemig yn y tymor hwy.

Mae Grŵp Adfer yn mynd i'r afael â themâu trawsbynciol a fydd yn ceisio gweithredu polisi a newid gweithdrefnol a fydd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn Awdurdod cadarn sydd ag arferion gwaith modern a'n bod yn gwneud defnydd mwy effeithlon o'n hystâd corfforaethol. Ymhlith y themâu allweddol mae:



1. Cynllunio gweithlu a gweithle.
2. Ailagor ardaloedd cyhoeddus.
3. TGCh ac arferion gweithio ystwyth.
4. Llesiant a chymorth i gyflogeion.

Sefydlwyd Grwpiau Adfer Economaidd ac Ysgolion sy'n bwydo i mewn i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Grŵp Adfer a Chynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella 2020-25.

Mae'n debygol y bydd cynnydd posibl o ran lefelau amddifadedd yn sgil galw cysylltiedig ar wasanaethau'r Cyngor oherwydd y cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n gwneud cais am gymorth credyd cynhwysol a'r dreth gyngor. Yn ariannol rydym yn disgwyl y bydd pwysau ar gostau gwasanaethau, a llai o incwm o'r dreth gyngor ac ardrethi busnes. Yn y tymor byr, bydd yn anodd meintioli'r effeithiau ehangach, a gaiff eu deall pan fydd bywyd yn dechrau dychwelyd i ryw fath o normalrwydd.

#### 4. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r canlynol yn ddisgrifiad o'r strwythurau a'r prosesau sydd ynghlwm wrth drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys trefniadau ar gyfer:

**a) Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolau'r gyfraith.**

Nododd y Cyngor nifer o Werthoedd Craidd ac ymddygiadau cysylltiedig:

- Bod yn Onest ac yn Agored
- Ymddiriedaeth a Pharch
- Atebolrwydd
- Dysgu
- Dyhead
- Gweithio mewn Tîm
- Cyfathrebu

Mae aelodau'r Cabinet yn cymryd rhan weithgar wrth adolygu'r gwerthoedd craidd hynny sy'n sail i holl orchwylion y Cyngor.

Mae'n ofynnol i bob Cyngorydd a Swyddog yn y Cyngor gydymffurfio â'r Codau Ymddygiad perthnasol fel y'u nodir yn y Cyfansoddiad, sy'n rhoi manylion rolau a chyfrifoldebau penodol y Cyngorwyr a'r Swyddogion.

Mae pawb sy'n dechrau yn y Cyngor yn cael Llawlyfr Staff sy'n rhoi crynodeb o bolisiau ac arferion gwaith perthnasol y Cyngor. Mae'r Llawlyfr yn cynnwys crynodeb o God Ymddygiad y Cyflogeion. Mae Cod Ymddygiad y Cyflogeion hefyd ar gael yn ei gyfanrwydd ar Fewnwyd y Cyngor.

Mae'r Cod Ymddygiad a'r Datganiad o Fuddiannau yn rhan o Broses Gynefino'r Cynghorwyr. Disgwylir i'r Cynghorwyr ddatgan i Gyfarwyddwr neu Reolwr priodol ac yn y Gofrestr Buddiannau, unrhyw fuddiannau ariannol/anariannol a allai wrthdaro â buddiannau'r Cyngor. Rhaid i'r Cynghorwyr hefyd ddatgan unrhyw letygarwch sy'n cael ei gynnig neu'i dderbyn.

Ffurfiodd y Cyngor Bwyllgor Safonau i hyrwyddo a chynnal egwyddorion moesegol uchel ac mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn y Cod Ymddygiad i Gynghorwyr. Rhaid i bob Cynghorydd gytuno i ddilyn y Cod Ymddygiad er mwyn sicrhau safonau uchel wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae'r Pwyllgor Safonau yn gyfrifol am fonitro llywodraethiant y Cyngor a hybu safonau uchel o ymddygiad moesegol ymysg Aelodau a Swyddogion er mwyn cynnal hyder mewn Llywodraeth Leol.

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yw Swyddog Monitro'r Cyngor. Hwysydd â'r cyfrifoldeb penodol dros sicrhau bod y Cyngor, ei Swyddogion a'i Gynghorwyr yn cynnal y safonau ymddygiad uchaf ym mhob peth y maent yn ei wneud, yn unol ag adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac fel y'i diwygiwyd gan atodlen 5, paragraff 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Ymhlith swyddogaethau'r Swyddog Monitro mae cefnogi'r Pwyllgor Safonau wrth iddo hyrwyddo safonau uchel; gweithredu yn ôl adroddiadau'r Ombwdsmon; a chynnal ymchwiliadau i gategoriâu penodol o gwynion yn erbyn cynghorwyr a ailgyfeirir gan yr Ombwdsmon. Ymdrinnir ag unrhyw gwynion a dderbynnir yn erbyn Cynghorwyr o dan weithdrefn datrys anghydfodau mewnol y Cyngor neu fe'u cyfeirir at yr Ombwdsmon i'w hymchwilio. Dim ond pan fydd yr Ombwdsmon yn teimlo bod yna ganlyniad priodol i wneud hynny y caiff cwynion eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau. Derbyniodd y Cyngor 4 cwyn yn erbyn Cynghorwyr yn ystod 2020/21.

- Ymdriniwyd ag 1 gwyn gan y Pwyllgor Safonau;
- Ymdriniwyd â 3 cwyn drwy ddatrysiaid anffurfiol.

Mae'r Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi bellach yn rhan o ffurflenni'r Adolygiad o Datblygiad Personol y disgwylir i'r Cynghorwyr eu llenwi gyda'u Harweinwyr. Mae'r broses hon o gymorth i'r Cynghorwyr nodi eu cryfderau allweddol, ystyried eu hanghenion datblygu parhaus a nodi pa gymorth allai fod ei angen er mwyn cyflawni'u hamcanion personol a

chyflawni amcanion llesiant a gweledigaeth gorfforaethol y Cyngor. Mae'r broses hefyd yn nodi unrhyw hyfforddiant penodol sy'n ofynnol i'w cynorthwyo i ddysgu a datblygu'n barhaus.

Yn ôl Strategaeth Gaffael y Cyngor 2019-2022 mae'n ofynnol i bob gweithgaredd caffael gyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb a phroffesiynoldeb, a bod Cynghorwyr a Swyddogion yn deg ac yn foesegol ac yn osgoi ymddygiad a allai fynd yn groes i hyn neu awgrymu bod buddiannau'n gwrthdaro.

Lle y bo'n berthnasol, bydd y Tîm Caffael yn cydymffurfio â Chod Moeseg CIPS (Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi) ac yn hyrwyddo hyn trwy'r Cyngor i bob aelod staff sy'n gyfrifol am ymrwymo gwariant.

Er mwyn cefnogi'r dasg o reoli risg, nodir Partneriaid Allweddol ym mhob un o Gofrestrau Risg y Cyngor. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo gweithredu'r Asesiad Effaith Integredig ac fe'i cyflwynwyd ar gyfer Adroddiadau'r Cyngor a'r Cabinet yn 2018/19 i gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â darnau eraill o ddeddfwriaeth y mae'r Cyngor yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn ymgorffori Amcanion Llesiant y Cyngor, egwyddor Datblygu Cynaliadwy (prosesau'r pum ffordd o weithio), yr Iaith Gymraeg, Cydraddoldeb, a Bioamrywiaeth, ac fe'i diweddarwyd ym mis Mawrth 2021 i adlewyrchu newidiadau i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i gymhwyso at achosion busnes a phrosiectau fel rhan o fframwaith rheoli prosiectau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ac mae gwaith Archwilio Mewnol yn cynnwys prosesu a chydlynu data a barwyd gan y Fenter Twyll Genedlaethol gydag Adrannau Gwasanaeth a gwaith perthnasol arall.

Mae gan y Cyngor Bolisi Gwrth-dwyll a Llygredd yn ei le. Cafodd y Polisi ei adolygu a'i ddiweddarau, ac mae'n cael ei baratoi i'w gymeradwyo ar hyn o bryd cyn ei weithredu.

Mae gan y Cyngor Bolisi Chwythu'r Chwiban yn ei le sy'n annog staff i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch camymddwyn o fewn y Cyngor. Caiff y Polisi ei hysbysebu o dro i dro er mwyn atgoffa'r staff i wneud atgyfeiriadau os oes angen.

#### **a) Sicrhau ymgysylltu helaeth ac agored â rhanddeiliaid.**

Mae'r Cyngor yn parhau i ddynodi gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori newydd er mwyn cydymffurfio â'r Siarter Ymgynghori. Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn rhai o'r prif ddulliau a ddefnyddia'r Cyngor i lywio a deall barn a safbwyntiau trigolion lleol, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill. Mae'r tîm yn parhau i adolygu eu prosesau gwranddo ac ymgysylltu er mwyn

cynyddu cyfranogiad rhanddeiliaid. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn ailsefydlu Panel Ffocws y Cwsmeriaid ac yn ystyried sut i ymgysylltu'n â phobl 16-25 oed. Mae'r Strategaeth Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i adlewyrchu elfennau o gynllun gwella'r Cyngor wrth symud ymlaen. Dyma sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol y Cyngor:

- Cylchgrawn Cyswllt
- Mewnrwyd y Cyngor
- Defnyddio cyfryngau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Defnyddio defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer grwpiau cynllunio
- Blog yr Arweinydd
- Y cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook a Twitter
- Dolenni fideo
- Gwefan y Cyngor
- Cyfleusterau arwyddion electronig
- Gwell sianeli mynediad telathrebu
- Ymgynghori'n benodol ar raglenni newid e.e. Sesiynau Gwybodaeth y Prif Weithredwr, Blog y Prif Weithredwr
- Sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb, megis sesiynau galw heibio a sioeau teithiol

Dros y deuddeg mis diwethaf, gwelodd y Cyngor gynnydd o 34% o ddilynwyr ar ei safle Facebook a chynnydd pellach o 11% yn dilyn safle Twitter y Cyngor.

Ymgysylltwyd â'r cyhoedd fel rhan o'r broses i gynnal yr Asesiad Llesiant i lywio'r Cynllun Llesiant ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. At hynny, gwnaed mwy o ymgysylltu ac ymgynghori i lywio Datganiad Llesiant y Cyngor ynghyd â'r amcanion sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Caiff gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu eu gwneud yn bennaf drwy ddefnyddio'r hyb ymgynghori digidol, Smart Survey, a defnyddiwyd mwy ar blatfformau digidol mewn perthynas ag ymgynghoriadau cyhoeddus. Caiff y porth hwn ei gyhoeddi drwy wefan y Cyngor ([www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)), safleoedd cyfryngau cymdeithasol a chylchgrawn cymunedol Cyswllt. Mae panel dinasyddion ar gyfer Merthyr Tudful Rhondda Cynon Taf yn ffordd arall o ymgysylltu, fodd bynnag mae aelodau'r grŵp hwn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau ein bod ni'n cynnwys pob rhan o'r gymuned. Mae hyn yn debygol o gael ei gwblhau erbyn hydref 2021.

Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn gyfrifoldeb i'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgynghori Corfforaethol o fewn y Cyngor.

At hynny, mae'r Cyngor wedi nodi nifer o Werthoedd Craidd ac ymddygiadau cysylltiedig gan gynnwys Bod yn Onest ac yn Agored, a Chyfathrebu.

Mae'r Cyngor yn rhagweithiol o ran ei holl ymgynghori ac ymgysylltu ar draws ardal Cwm Taf Morgannwg, gan weithio'n agosach â phartneriaid trwy fynychu cyfarfodydd grŵp strategol yr ymarferwyr hynny sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae lefel yr ymgysylltiad wedi gwella'n sylweddol drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cwm Taf a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Pen-y-Bont ar Ogwr.

Caiff adborth o'r holl weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu cyhoeddus eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet a'r Cyngor. Hefyd, caiff canlyniad yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a phlatfformau'r cyfryngau cymdeithasol.

Drwy gydol unrhyw ymgynghoriad neu ymarferiad ymgysylltu, caiff diweddariadau statws rheolaidd eu darparu i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, yr Uwch Dim Rheoli, Cyfathrebu, yr Is-grŵp Ymgynghori, y Bwrdd Trawsnewid a'r Undebau Llafur perthnasol.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bartneriaeth statudol o sefydliadau'r sector cyhoeddus a gwirfoddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth wrth ddatblygu Aseiad Llesiant Cwm Taf a Chynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg.

I gefnogi gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'r Grŵp Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu'n gweithio'n agos i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn deall y gwaith a'i nod o newid y ffordd rydym ni'n gwasanaethu'r cyhoedd.

Mae holl agendâu, adroddiadau a chofnodion y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor yn Gymraeg a Saesneg fel y cânt eu cyhoeddi. Ers mis Medi 2020 ac oherwydd pandemig COVID-19, caiff pob cyfarfod ei gynnal o bell drwy Microsoft Teams. Yn sgil hyn, caiff cyfarfodydd y pwyllgorau eu recordio a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi cwynion corfforaethol a pholisi cwynion gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau ei fod yn ymdrin yn effeithiol ag unrhyw bryderon neu gwynion sydd gan gwsmeriaid ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Roedd pandemig COVID-19 yn golygu nad oedd modd i swyddogion gwrdd ag aelodau'r cyhoedd wyneb yn wyneb. Felly, er mwyn atal unrhyw rwystrau i'r cyhoedd gyflwyno cwyn neu drafod cwyn yn fanwl, trefnwyd cyfarfodydd telegyfathrebu a Teams ar gyfer yr aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n meddu ar y dechnoleg. Darparwyd meddalwedd ffonio Mitel i'r Swyddogion Cwynion, ynghyd â chlustffonau er mwyn sicrhau sgysiau clir a lleihau sŵn allanol. Roedd hyn o fantais i aelodau'r cyhoedd na all lunio cwyn ysgrifenedig.

Mae gan y Cyngor agwedd bositif tuag at gwynion ac yn eu hystyried yn adborth gwerthfawr sy'n cynorthwyo i ddatblygu a gwella gwasanaethau. Mae cwynion hefyd yn rhoi cyfle i ddysgu gwersi pan fo gwasanaeth yn perfformio'n is na'r safon ddisgwyliedig.

Yn 2020/21, derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 402 o gwynion corfforaethol; ni chefnogwyd 126 o'r rhain, cefnogwyd 118, cafodd 61 eu datrys gan y Gwasanaeth Rheng Flaen, ni dderbyniwyd ymateb o'r canlyniad gan Reolwr/Adran mewn 46 achos, nid oedd 27 yn teilyngu ymchwilio iddynt ymhellach, roedd 13 yn gwynion am Wasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu gan y Cyngor, roedd 9 wedi'u gollwng, ac roed 2 wedi'u tynnu'n ôl. Bydd canmoliaeth a chwynion yn rhan o ddangosfwrdd corfforaethol y Cyngor, a gall y data gael ei ddefnyddio i lywio'r adolygiadau busnes chwarterol. Caiff cwynion ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol eu hadrodd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu. At hynny, caiff Cwynion Corfforaethol eu hadrodd yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedyn yn y Cyngor Llawn i'w cymeradwyo ym mis Hydref 2021.

**b) Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.**

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod a chyhoeddi amcanion llesiant a nodi sut y bydd yn gweithio tuag at fodloni'r amcanion hynny gan ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn ffordd gynaliadwy i gyflawni'r weledigaeth gyffredin i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Felly, mae angen inni wneud yn siŵr, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar y bobl sy'n byw eu bywydau ym Merthyr Tudful yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf, gan gynnwys Llywodraeth Leol, ystyried y tymor hirach wrth lunio'u penderfyniadau a chydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol i osod amcanion llesiant sy'n gwneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni nodau llesiant. Cafodd amcanion llesiant cyntaf y cyrff cyhoeddus eu gosod a'u cyhoeddi erbyn 31 Mawrth, 2017. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at ddiwallu'u Hamcanion Llesiant.

Ar ôl gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/2020, cymerodd y Cyngor gam rhagweithiol gan ofyn i Lywodraeth Cymru i roi cymorth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn yr amserau heriol yma. Penododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Fwrdd Gwella a Sicrwydd i gynnal ymarferiad asesu cyflym. I ymateb i ganlyniadau'r asesiad hwn, datblygodd y Cyngor Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella.

Mae'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella yn ddogfen fyw sy'n galluogi i'r Cyngor ganolbwyntio ar gynaliadwyedd wrth adfer o'r pandemig, gan drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio a gwella'r arfer o gyflawni canlyniadau i'n trigolion. Bydd y Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella

yn darparu llwybr gwella 5 mlynedd ac mae'n nodi 3 maes y mae angen mynd i'r afael â hwy ar frys er mwyn gallu cyflawni ein hamcanion llesiant:

- Gwella ein Safonau Addysg;
- Cynyddu ein Cydnerthedd mewn Gofal Cymdeithasol;
- Adferiad Economaidd.

Mae'r Swyddogion, yr Aelodau Etholedig a'r Aelodau Craffu yn cydweithio i fireinio'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella ymhellach ynghyd â gwneud gwelliannau parhaus.

Nod rhaglen waith yr Adferiad Economaidd yw gweithio gyda phartneriaid ynghyd ag ymgysylltu â'r cyhoedd i lunio gweledigaeth economaidd 15 mlynedd ar gyfer Merthyr Tudful. Bydd hyn yn llywio'r gwaith sy'n cael ei ail-lunio ar hyn o bryd ar gyfer y cynllun llesiant corfforaethol a'r weledigaeth wrth symud ymlaen.

Mae gweledigaeth y Cyngor wedi'i gymeradwyo ac mae'n greiddiol i gyflawni'r Amcanion Llesiant lleol ac amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn cydweddu â'r saith Nod Llesiant a'r Pum Ffordd o Weithio (Hirdymor; Atal; Integreiddio; Cynnwys; Cydweithio). Mae hefyd gan y Cyngor Ddatganiad Llesiant a dogfen Ffocws ar y Dyfodol sy'n cyflwyno'r Amcanion Llesiant. Mae Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i ddatblygu. Mae strategaethau ar gyfer pob un o'r Amcanion Llesiant yn ategu'r weledigaeth, ac mae dangosyddion perfformiad priodol wedi'u nodi. Cynhaliwyd ymarferiad helaeth wrth ddatblygu'r Amcanion Llesiant lleol ac amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Caiff hyn ei adlewyrchu yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r ddogfen Ffocws ar y Dyfodol. Defnyddir yr un dull mewn perthynas â phrosiectau newid ac wrth osod cyllidebau. Caiff hyn wedyn ei ddefnyddio wrth osod cyllidebau ac Amcanion Llesiant lleol.

Er mwyn bod yn agored a thryloyw, mae gwybodaeth sy'n ategu'r holl waith ymgysylltu a'r ymgynghoriadau cyhoeddus ar gael ar sianelu cyfathrebu'r Cyngor, hynny yw, gwefan y Cyngor, y cyfryngau cymdeithasol, Facebook a Twitter a thrwy Smart Survey. Gall rhanddeiliaid ddefnyddio'r sianeli hyn i roi adborth mewn ymateb i unrhyw sesiwn ymgysylltu neu ymgynghoriad cyhoeddus ac mae cyfle hefyd i ymateb drwy gopi papur, e-bost neu ddeiseb. Caiff yr holl wybodaeth ei chofnodi a'i dadansoddi gan y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol, a bydd canlyniad hyn yn cael ei anfon ymlaen i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Tîm Arwain Corfforaethol i'w ystyried. Bydd y canlyniad ac effaith y penderfyniad a wneir yn cael eu hadrodd drwy sianeli cyfathrebu'r Cyngor.

Caiff perfformiad ei fonitro drwy hunanasesiad a her perfformiad. Caiff perfformiad gwasanaethau hefyd ei herio yng nghyfarfodydd y pwyllgor craffu.

Mae gan y Cyngor Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ei lle sy'n rhan hanfodol o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn gofrestr risg sy'n caniatáu i'r Cyngor ganolbwyntio ar reoli a lliniaru'r risgiau corfforaethol mwyaf sylweddol a allai effeithio ar y sefydliad neu/a'r gymuned.

Caiff Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor, wedi'i diweddarau, ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet i'w chymeradwyo, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol ar reoli risg. Mae adrodd am reoli risg yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu risg y Cyngor. Caiff Swyddogion Arweiniol Tîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor eu gwahodd i fynychu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar sail rhaglen dreigl i adrodd ar gynnydd wrth reoli eu Risgiau Corfforaethol.

Caiff ymgynghoriadau ynghylch y gyllideb eu cynnal ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn pwysu a mesur blaenoriaethau cwsmeriaid wrth ddyrannu adnoddau prin. Bydd y rhain fel arfer ar ffurf sioeau teithiol y Cabinet, arolygon ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal â hynny, ceisir barn cwsmeriaid ynghylch cynyddu'r Dreth Gyngor i gefnogi gwasanaethau lleol. Mae'r ymgysylltiad hwn yn gymorth i lywio'r broses o Osod Cyllideb; mae hefyd yn rhoi gwybod i'r cwsmer am y pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor wrth iddo geisio dyrannu adnoddau ar gyfer galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd. Caiff achosion busnes eu datblygu a'u herio gan ddefnyddio'r Saith Nod Llesiant, y Pum Ffordd o Weithio, yr Amcanion Llesiant rhanbarthol a'r Amcanion Llesiant lleol. Oherwydd pandemig Covid-19, roedd yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Gyllideb ar gyfer 2021/22 a gynhaliwyd yn ystod Ionawr/Chwefror 2021 wedi'i gyfyngu i arolwg ar-lein yn unig.

Mae prosesau ymgysylltu cyhoeddus helaeth yn eu lle, ac mae'r rhain yn cynnwys rheoli disgwyliadau. Mae hyn hefyd yn wir am newid mewnol. Mae achosion busnes, dogfennau cychwyn prosiect ac adroddiadau cyflawni yn cynnwys asesiadau ar gyfer pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Caiff y Rhaglen Gyfalaf ei llunio ar gyfer cyfnod o bedair blynedd yn seiliedig ar gynigion a gyflwynir gan y Prif Swyddogion/Uwch Reolwyr; cânt cefnogi gan y Cabinet a'u cymeradwyo gan y Cyngor. Mae goblygiadau refeniw'r penderfyniadau cyfalaf wedi'u cynnwys fel rhan o Gynllun Ariannol Tymor Canolig integredig; er enghraifft, y goblygiadau cost i gyllid cyfalaf wrth fenthyg i gefnogi'r gwariant cyfalaf. Ariennir cyfran sylweddol o'r gwariant cyfalaf trwy grantiau allanol a dderbynnir gan nifer o gyrff dyfarnu allanol sy'n destun amodau a thelerau llym a chyfarwyddol.

Mae Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru yn sbardun allweddol i weithgareddau caffael. Bwrdd Caffael y Cyngor sy'n ysgogi'r effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n ymwneud â gweithgareddau caffael. Rhwir prawf ar fuddion cymunedol pob contract dros



£1 miliwn. Mae'r Cyngor yn cydweithio'n helaeth â chyrrff cyhoeddus eraill ar draws y portffolio caffael ac mae'r strategaeth gaffael yn cefnogi'r Deddf gan gynnwys ymgysylltu â chyflenwyr. Darperir cystadleuaeth hygyrch ac agored trwy gyfrwng offer e-gaffael a ariennir gan Lywodraeth Cymru (GwerthwchiGymru, eDendroCymru, AWARD, Menter y Farchnad), a darperir proses syml a safonedig trwy P2P. Diweddarwyd Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021. Bydd sector cyhoeddus Cymru'n dilyn deg o egwyddorion ar gyfer caffael, yn seiliedig ar Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

Wrth wahodd tendrau, mae'r broses yn sicrhau bod y tendr mwyaf manteisiol yn cael ei gymeradwyo gan bennu amodau sy'n cydymffurfio ag Amcanion Llesiant y Cyngor a'r Ddeddf fel y bo'n briodol.

O ran sicrhau mynediad teg i wasanaethau, cynhaliodd y Cyngor waith ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024 yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Cynllun yn nodi Pedwar Amcan Cydraddoldeb:

- Ymgysylltiad a Chyfranogiad Cynhwysol:  
Ymgysylltu â Dinasyddion er mwyn iddynt gyfranogi a chael gwrandawriad i'w barn er mwyn deall ac ymateb i anghenion cymunedau Merthyr.
- Cydlyniant Cymunedol:  
Hybu a hwyluso cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.
- Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol:  
Creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful.
- Rhywedd / Cyflog Cyfartal:  
Sicrhau cyflogau teg ar draws y Cyngor. Gwasanaethau hygyrch; deall a gwaredu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor.

Daeth y Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym ar 31 Mawrth 2021 sy'n golygu bod yn rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, wrth wneud penderfyniadau strategol. I sicrhau y caiff y dyletswydd hwn ei gyflawni, diweddarwyd yr Asesiad Effaith Integredig i gynnwys adrannau ychwanegol a daeth i rym ar 31 Mawrth 2021 (ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu ag Uwch Reolwyr). Dyma'r adrannau ychwanegol:

- Anfantais Economaidd-gymdeithasol;
- Ymgynghori ac Ymgysylltu;
- Data a Thystiolaeth;
- Monitro ac Adolygu.

Diweddarwyd y canllawiau a datblygwyd fersiynau hawdd eu darllen.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyflwyno'r Weledigaeth Cydraddoldebau ganlynol i Ferthyr Tudful:

*"Dyma fan ble y caiff amrywiaeth ei werthfawrogi a'i barchu a ble y gall pawb gyfranogi, llewyrchu a chael y cyfle i gyflawni ei botensial yn llwyr heb unrhyw wahaniaethu na rhagfarn."*

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol sy'n nodi cynnydd ar draws pob agwedd ar ei waith ar gydraddoldeb, gan gynnwys cynnydd ar gyflawni ei Amcanion Cydraddoldeb yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Cymeradwyodd y Cyngor ei Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. Mae'r Strategaeth yn cyflwyno'r weledigaeth ganlynol i'r Gymraeg ym Merthyr Tudful:

*"Man sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb"*.

Caiff hyn ei gyflawni trwy alluogi ac annog:

- Darpariaeth eang o addysg Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol.
- Y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, ar yr aelwyd ac wrth chwarae.
- Y canfyddiad o ieithoedd fel sgiliau bywyd a'r modd y maent yn cyfoethogi bywydau'r rhai sy'n eu defnyddio.
- Pobl ledled y Fwrdeistref Sirol i deimlo balchder yn eu hiaith a'i siarad yn hyderus.

Gweledigaeth y Cyngor yw annog newid diwylliannol yn y canfyddiad sydd o ddwy iaith Cymru yn y Fwrdeistref Sirol hon. "Rydym eisiau gwneud gwahaniaeth."

**c) Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig i'r graddau gorau posib.**

Mae'r dasg o gyflwyno newid corfforaethol yn cael ei monitro a'i chefnogi trwy'r Grŵp Llywio Rheoli Newid fel rhan o'r fframwaith caffael a'r trefniadau llywodraethu. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o bob cwr o'r Cyngor, e.e. Cyfreithiol, Caffael, Risg, Cydraddoldebau, Perfformiad, Cyllid, Cyfathrebu Corfforaethol, Adnoddau Dynol, Newid Busnes a Rheoli Prosiectau. Ar ôl cyflwyno'r newid, mae'r Bwrdd Cyllidebol yn monitro'r sefyllfa ariannol. Caiff perfformiad ei fonitro trwy hunanasesu a herio perfformiad (fodd bynnag, nid yw hyn ar draws pob maes gwasanaeth oherwydd y llinell amser ar gyfer datblygu cynllun llesiant Ffocws ar y Dyfodol). Mae perfformiad y gwasanaeth hefyd yn cael ei herio yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu. Mae gweithdai ychwanegol y eu lle i Aelodau Etholedig ac

Aelodau Craffu sy'n canolbwyntio ar newidiadau allweddol, er enghraifft yn sgil deddfwriaeth a Chynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor. Cynhaliwyd gweithdai penodol mewn perthynas â gwella Swyddogaeth Graffu'r Cyngor.

Caiff dogfennau eu herio gan amrywi Fyrddau perthnasol fel rhan o'r trefniadau llywodraethu, ac mae'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd (yn ei le drwy Lywodraeth Cymru fel rhan o gais y Cyngor am gymorth Llywodraeth Cymru) yn parhau. Caiff dogfennau eu herio gan amrywi Fyrddau perthnasol fel rhan o'r trefniadau llywodraethu. Mae pob adroddiad i'r Cabinet a'r Cyngor yn galw am Aseiad Effaith Integredig ar Gydraddoldeb. Gwneir y gwaith herio mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel rhan o'r broses hon.

Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli prosiectau sy'n asesu risg, adnoddau a chyllid (yn ogystal ag elfennau eraill y cynnig). Mae'r templed achos busnes yn nodi pob opsiwn sydd i'w arfarnu. Mae'r dogfennau cychwyn prosiect yn nodi amserlenni a gwybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen. Gwnaed newidiadau (yn arbennig i ddogfen Aseiad Effaith Integredig y Cyngor) yng ngoleuni'r dyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd.

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn asesu'r adroddiadau cyn iddynt ymddangos gerbron y Cabinet a'r Cyngor ynghyd â'r adborth a ddaw o'r dogfennau a'r byrddau.

Wrth fynd i'r afael â gofynion lleihau cyllideb, mae achosion busnes yn cynnwys nifer o opsiynau ynghyd ag aseidiadau risg a chydraddoldeb a llinellau amser arfaethedig i'w cyflawni.

Mae cylchoedd cynllunio a rheoli, sy'n cynnwys cynlluniau, blaenoriaethau a thargedau strategol a gweithredol, wedi'u sefydlu. Ar hyn o bryd, caiff y rhain eu cyflenwi fel rhan o swyddogaethau'r Tîm Rheoli Corfforaethol a Chraffu. Mae gan Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol gylchoedd rheoli ychwanegol i ateb gofynion allanol (gan gynnwys protocolau diogelu). Mae Blaengynllun Cabinet 2021-22: Chwarter 1 ar gael ar y wefan. Mae gweithdai anffurfiol ychwanegol yn eu lle. Mae'r rhain yn rhoi amser i Swyddogion, Aelodau Etholedig ac Aelodau Craffu gydweithio i yrru'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella. Caiff pwyslais mwy ei roi ar flaengynllun y 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'. Mae hyn yn cydweddu â deddf newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Dadansoddir unrhyw adborth a ddaw yn sgil ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, gan gynnwys Ymgynghoriad Cyllideb, gan yr Adran Cyfathrebu, Ymgynghori ac Ymgysylltu, a bydd adroddiad o'r canfyddiadau yn cael ei ystyried gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ac Aelodau'r Cabinet. Yn dilyn hyn, cyflwynir adroddiad ychwanegol i'r Cyngor Llawn er mwyn dod i benderfyniad. Bydd canlyniad y penderfyniad hwnnw'n cael ei gyfleu i bob rhanddeiliad trwy sianeli cyfathrebu'r Cyngor, h.y. gwefan y Cyngor, y cyfryngau cymdeithasol a chylchgrawn cymunedol Cyswllt.

Ar gais ein trigolion, cynhelir digwyddiadau sy'n cynnig gwybodaeth ychwanegol gyda chymorth Cabinet y Cyngor.

Ymgysylltir â'r staff yn fewnol trwy Fewnwyd y Cyngor, Blogiau'r Prif Weithredwr, Sioeau Teithiol, e-byst i staff a fforymau staff.

Caiff dangosyddion perfformiad lleol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol neu genedlaethol perthnasol eraill) eu defnyddio i ddynodi sut y caiff perfformiad gwasanaethau a phrosiectau ei fesur.

Fel rhan o broses Strategaeth ar Dudalen, cynhaliwyd adolygiad llawn o Berfformiad, Craffu, Partneriaethau, yr Iaith Gymraeg, Newid Busnes, Risg a'r Tîm Cydraddoldeb, i sicrhau bod capasiti'n bodoli i gynhyrchu'r wybodaeth ofynnol er mwyn adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd. Mae proses ansawdd adolygu busnes chwarterol yn cael ei lunio. Gwneir hyn mewn cydweithrediad ag Aelodau Etholedig ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynghorau eraill i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig o gymorth i gynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau corfforaethol ac mae wedi'i integreiddio â Nodau Llesiant y Cyngor, Cynllun Rheoli Asedau, Cynllun Sefydliad Iach, Cyd-destun Ariannol, Cyllideb Refeniw, Rhaglen Gyfalaf, Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn a Pholisi Rheoli'r Trysorlys.

Cynllun pedair blynedd yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ac mae'n integreiddio'r cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf sy'n gysylltiedig â'r amcanion strategol. Gosodir y Rhaglen Gyfalaf am bedair blynedd. Caiff amcanestyniadau cyllidebol pedair blynedd eu llunio ar gyfer refeniw sy'n nodi diffygion cyllidebol arfaethedig o flwyddyn dau i bedwar. Wrth benderfynu a yw cynlluniau'r Cyngor yn fforddiadwy ai peidio, caiff y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei lunio ar sail y cyllid rhagamcanol a dderbynnir oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn nodi hyd a lled yr adnoddau sydd ar gael i wasanaethau'r Cyngor trwy ddiffinio'r swm sy'n fforddiadwy.

Mae Cyfrifwyr cymwysedig a rhannol gymwysedig yn gweithio gyda Rheolwyr Gwasanaethau i sefydlu gofynion cyllidebol a chanfod effaith gostyngiadau arfaethedig i'r gyllideb. Caiff gwybodaeth am linellau amser a disgwyliadau eu hysbysu. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cyplu'r uchelgeisiau cyfalaf a'r goblygiadau refeniw dros bedair blynedd y cynllun.

Er bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar hyn o bryd ond yn dangos diffygion rhagamcanol i'r gyllideb ym mlwyddyn 2 i 4, mae dadansoddiad sensitifrwyd o Gyllid Llywodraeth Cymru a

chynnydd yn y Dreth Gyngor a Dyfarniad Cyflogau yn galluogi inni gloriannu effeithiau'r newidiadau yn yr amgylchedd allanol. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth ystyrlon bellach i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

**d) Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'u unigolion sydd ynddo.**

Adolygir gweithrediadau, perfformiad a'r defnydd a wneir o asedau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol. Caiff asedau nad oes eu hangen eu hadolygu'n barhaus ac argymhellir eu gwerthu lle y bo'n briodol.

Mae'r dasg o gyflwyno newid corfforaethol yn cael ei monitro a'i chefnogi gan Grŵp Llywio fel rhan o lywodraethu Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor. Mae'r grŵp hwn yn gysylltiedig â Bwrdd Cyllideb y Cyngor. Caiff unrhyw arbedion a wneir o brosiectau eu monitro gan Fwrdd y Gyllideb ynghyd â'r sefyllfa ariannol ehangach. Caiff perfformiad ei fonitro trwy hunanasesu a herio perfformiad. Mae perfformiad y gwasanaeth hefyd yn cael ei herio yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (2014-19) yn cyflwyno cynllun pum mlynedd y Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau sy'n parhau'n berthnasol ac yn ei le ar gyfer 2020/21. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol newydd ar waith â chael ei ddrafftio ar hyn o bryd a disgwylir y bydd y fersiwn wedi'i diweddarau wedi'i chwblhau erbyn mis Mawrth 2022. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn cael ei adolygu i sicrhau bod y portffolio eiddo'n cydfynd yn agos â gofynion gwasanaethau a blaenoriaethau corfforaethol. Mae yna gamau cadarn yn ei lle ar gyfer adolygu eiddo sydd yn dadansoddi gofynion y gwasanaeth, yn argymhell bod eiddo'n cael ei resymoli lle bo'n briodol, ac yn rhyddhau eiddo dros ben i ariannu'r rhaglen gyfalaf.

Defnyddir technegau meincnodi sganio'r gorwel wrth ddatblygu strategaethau ac achosion busnes ar gyfer newid. Caiff meincnodi ei wneud gydag Awdurdodau Lleol eraill, y Sector Cyhoeddus a'r Sector Preifat lle bo'n briodol, bryd bynnag y cyflwynir cynigion i arbed arian o'r gyllideb. Yn ogystal â hynny, defnyddir gwybodaeth feincnodi i gefnogi'r Polisi Rheoli Incwm ac Adennill Costau i helpu i werthuso i ba raddau y mae gwasanaethau â ffrwd incwm yn adennill costau. Mae hyn wedyn yn llywio cynigion i gynyddu ffioedd a thaliadau. Defnyddir meincnodi hefyd i asesu gwasanaethau'r Cyngor o ran gwerth am arian, er enghraifft cyrhaeddiad addysgol.

O ran gweithredu partneriaethau'n effeithiol, mae gan y Cyngor Restr Wirio Categori Risg fel rhan o'i broses nodi risgiau. Mae'r Rhestr Wirio yn cynnwys y canlynol mewn perthynas â risgiau sy'n gysylltiedig â phartneriaeth:

- Ystyried, er enghraifft, yr effaith o weithio gyda sefydliadau yn y sector preifat a/neu'r sector cyhoeddus, fframweithiau atebolrwydd a ffiniau partneriaethau, prosiectau mawr gyda chyd-fentrau, gwasanaethau allanol, rheoli perthynas, rheoli newid / strategaethau ymadael, parhad busnes a rhwymedigaethau cytundebol.

Mae'r Rhestr Wirio ddiweddaraf hefyd yn rhan o Fframwaith Rheoli Prosiect diwygiedig y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi datblygu Aseiad Effaith Integredig sy'n ymgorffori Amcanion Llesiant y Cyngor, yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy (y pum ffordd o weithio), y Gymraeg, Cydraddoldeb a Bioamrywiaeth, i gefnogi penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â darnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Cyngor.

Cynyddwyd faint o waith partneriaeth a wneir fel rhan o'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella ac yn ein hymateb i effeithiau pandemig Covid-19. Mae'r gwaith partneriaeth yn cynnwys bod y Cyngor yn rhan o ddau brosiect y Gronfa Trawsnewid Digidol, Llywodraeth Cymru:

- Prosiect Data – Cyngorau RhCT, Pen-y-bont ar Ogwr a Phowys;
- System gwmwl i ddarparu hyfforddiant ar gyfer Gofal Cymdeithasol – Cyngorau Blaenau Gwent a Chaerffili

Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynghorau eraill wrth ymateb i ddeddf newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r holl brosiectau hyn yn caniatáu i'r Cyngor gyflawni'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella yn well, gan olygu y gall y Cyngor, yn ei dro, gyflawni'r amcanion llesiant yn well er mwyn cyflawni gweledigaeth y Cyngor.

Mae'r Aseiad Effaith Integredig hefyd yn cynnwys risg yn ymwneud â phartneriaeth fel rhan o'r pum ffordd o weithio. Mae'r Aseiad Effaith Integredig yn gofyn y canlynol o dan gategori Cydweithio (Cydweithio'n weithredol â phartneriaid eraill (mewnol ac allanol) i gyflawni amcanion llesiant):

- A yw'rartneriaid yn nodi, deall a rheoli eu rôl yn y bartneriaeth yn y ffordd fwyaf priodol – yn nodi ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant y bartneriaeth a'r cydberthnasau, gan nodi'r risgiau, beth allai fynd o'i le, beth allai atal y bartneriaeth rhag cyflawni'i amcanion a'i ganlyniadau?
- A yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â chreu, sefydlu, rheoli a chyflawni partneriaethau llwyddiannus wedi'u nodi ac yn cael eu rheoli? Mae enghreifftiau o rai o'r risgiau y

gellid eu hystyried yn cynnwys ariannol, cyfreithiol, enw da, adnoddau'n gwrthdaro, dibyniaeth ar bartner penodol, a pha mor dda mae partneriaid eraill yn rheoli risg.

Mae hyn wedi'i gymhwysu i achosion busnes a phrosiectau fel rhan o fframwaith rheoli prosiectau'r Cyngor. Cyflwynwyd yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Adroddiadau'r Cyngor a'r Cabinet erbyn mis Hydref 2018. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i ehangu i gynnwys cyflwyniad y dyletswydd economaidd-gymdeithasol, ac felly caiff y dyletswydd economaidd-gymdeithasol ei gynnwys ym mhenderfyniadau'r Cyngor.

Mae'r Arweinwyr Gwleidyddol yn ymwybodol o'r rheolau sy'n ymwneud ag aelodaeth pwyllgorau o ran cydbwysedd gwleidyddol a chyfyngiadau ar gyflogau uwch swyddogion. Yn sgil hynny, maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod enwebiadau'n cwmpasu pob sedd ar y pwyllgorau, y cyrff allanol a'r byrddau partneriaeth.

Gyda nifer fawr o Gynghorwyr newydd yn 2017, bu gwaith dwys rhwng Uwch Gynghorwyr a Swyddogion i hwyluso dealltwriaeth o rolau a gweithrediadau'r sefydliad, ac mae hynny wedi parhau yn 2020/21. Newidiodd Arweinydd y Cyngor yn 2020/21 ond mae'r gwaith i atgyfnerthu rolau yn parhau.

Mae'r gweithgareddau cynefino, hyfforddiant a datblygiad i Gynghorwyr wedi parhau, ynghyd â pherthynas weithio agos rhwng y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet gan gynnwys nifer o gyfarfodydd ar y cyd. Darparodd y Bwrdd Sicrwydd gymorth penodol o ran hyfforddiant a datblygiad.

Cafwyd eglurhad ynghylch rôl yr Hyrwyddwyr Aelodau a'u hatebolrwydd a bydd gofyn iddynt adrodd yn ôl ar eu gwaith a'i effaith ar weledigaeth ac amcanion llesiant y Cyngor.

Mae gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr rolau arweinyddol diffiniedig ac unigryw sydd wedi'u nodi mewn sawl man yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'r mater hwn yn cael ei adolygu am fod angen diffinio'r rolau yn gliriach ac mewn mwy o fanylder ac er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall. Darparodd y Bwrdd Sicrwydd gymorth penodol yn y maes hwn, a derbyniwyd hyfforddiant i aelodau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae system rheoli perfformiad wedi bod yn ei le a chafodd hon ei hadolygu a'i diweddarau gan gynnwys system rheoli perfformiad wedi'i diweddarau o'r enw Ffocws ar eich Perfformiad, a lansiwyd yn ddiweddar. Cynhaliwyd gweithdai gyda'r Rheolwyr i drafod templedi newydd a sut i sicrhau bod cynlluniau datblygiad personol wedi'u cynnwys i nodi anghenion hyfforddiant a datblygu. Mae gofyn i'r staff osod amcanion gyda'u rheolwr llinell ac mae gofyn iddynt

gyfarfod â'u rheolwr llinell bob 4-6 wythnos i arolygu'r cynnydd. At hynny, bob 6 mis cynhelir adolygiad interim a chynhelir adolygiad perfformiad ym mis Ebrill.

Mae yna nifer o bolisiau iechyd a diogelwch ar waith i gynnal iechyd a llesiant y gweithlu, a chefnogir y staff i gynnal eu llesiant corfforol a meddyliol eu hunain. Mae'r polisiau hyn yn cynnwys:

- Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol;
- Polisi Asesu Risg – Gweithdrefn a Chanllawiau;
- Polisi Cymorth Cyntaf yn y Gweithle;
- Polisi Offer Sgrîn Arddangos;
- Polisi Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH);
- Polisi Cyffuriau ac Alcohol;
- Polisi Gweithiwr Unigol;
- Cynllun Rheoli Asbestos;
- Polisi Straen yn y Gweithle.

Mae cymorth Iechyd Galwedigaethol ar gael i'r holl staff, gan gynnwys asesiadau gan bersonél meddygol hyfforddedig, mynediad i gwrsela, ac addasiadau i weithleoedd/gweithfannau er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion anabledd. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol bellach yn fewnol unwaith eto a chaiff ei gynorthwyo gan system feddalwedd Cohort. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi parhau gyda Case UK Ltd er mwyn gallu defnyddio cynllun Able Future yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â chymorth Iechyd meddwl. Mae hwn yn wasanaeth 24 awr sy'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chwsela ar-lein a thros y ffôn i bob aelod o staff cyflogedig y Cyngor.

**e) Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn.**

Cynhaliwyd Hunanasesiad o Drefniadau Rheoli Risg y Cyngor yn flaenorol er mwyn sefydlu ei lefel Aeddfedrwydd Risg ac yn sgil hynny, nodwyd mai lefel Aeddfedrwydd Risg y Cyngor yw bod:

- y Trefniadau Rheoli Risg yn gweithio ac wedi'u hymwreiddio yn y sefydliad

Mae'r Cyngor wedi parhau i fireinio'i drefniadau trwy hunanadolygu ac mae wedi ailstrwythuro'i Gofrestr Risgiau i adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Mae gan y Cyngor Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ei lle ynghyd â Cofrestri Risgiau ar gyfer Prif Swyddogion a Meysydd Gwasanaeth. Mae'r Cofrestri Risgiau hyn yn cofnodi ac yn adrodd ynghylch rheoli risgiau ynghyd ag achosion allai effeithio ar:

- Gyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor.
- Llesiant ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol
- Y sefydliad (y Cyngor).

Mae'r trefniadau Rheoli Risg yn llywio'r Cynllun Archwilio Mewnol sy'n cael ei lunio ar gyfer y flwyddyn, a phob blwyddyn bydd y tîm Archwilio Mewnol yn canolbwyntio ar sawl Risg Gorfforaethol fel rhan o'u gwaith archwilio, ac yn adolygu'r trefniadau rheoli risg yn gyfnodol.

Mae Rheoli Risg yn elfen allweddol o Fframwaith Rheoli Prosiect y Cyngor i sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori i'r holl lefelau o raglenni a phrosiectau ar draws y Cyngor. Mae Rheoli Risg yn parhau i fod yn rhan annatod o Raglen Newid y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys cael Rhaglen Risg a Log Problemau mewn lle a gaiff eu monitro ac yr adroddir arnynt yn chwarterol.

Mae risgiau, ynghyd â chymau lliniaru risg, yn cael eu monitro a'u hadrodd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae elfennau o Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor yn ffurfio llawer o'r camau lliniaru. Adroddwyd y Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella ym Mhwyllgor Craffu Llywodraethu, Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol ym mis Mawrth 2021. At hynny, cyflwynir yr adroddiadau risg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae gan y Cyngor chwe phwyllgor craffu; Pwyllgor Craffu Trawsnewid, Masnacheiddio a Gwasanaethau Corfforaethol; Pwyllgor Craffu Dysgu a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol; Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad; Pwyllgor Craffu Adfywio, Diogelu'r Cyhoedd a Thai (a'r Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn hefyd); a Phwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r pwyllgorau hyn yn cyfarfod tua bob chwe wythnos. Y mae hefyd Gyd-bwyllgor Craffu sydd â'i aelodau'n cynnwys yr holl Gynghorwyr Craffu ac aelodau cyfetholedig. Mae'r Cyd-bwyllgor Craffu'n cyfarfod pan fo mater neu eitem sy'n effeithio ar yr holl bwyllgorau craffu. Gwnaeth y Cyd-bwyllgor Craffu gyfarfod ym mis Ionawr 2021 i ystyried cynigion cyllideb ar gyfer 2021/22.

Mae'r pwyllgorau craffu'n cynnwys aelodau lleol etholedig (Cynghorwyr) nad ydynt yn rhan o Gabinet y Cyngor, ynghyd â chynrychiolwyr cyfetholedig. Eu rôl yw dal y weithrediaeth i gyfrif drwy fonitro perfformiad, herio cynigion gwariant y Cyngor, adolygu gwasanaethau, cyfrannu at ddatblygu polisi, archwilio gwaith darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill a hybu ymgysylltiad y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd. Yn ogystal â chael aelodau cyfetholedig wedi'u penodi'n gyhoeddus ar bob pwyllgor craffu, ceir aelodau cyfetholedig sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol, ac aelodau cyfetholedig y Fforwm Ieuencid.

Mae cryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor yn rhan o Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys Swyddogion, Aelodau Etholedig ac Aelodau Craffu yn cydweithio i ddatblygu a chyflawni'r rhaglen. Cynhaliwyd hunanwerthusiad Craffu am y tro cyntaf, ac mae hyn yn cynnwys barn Swyddogion, Aelodau Etholedig ac Aelodau Craffu. Caiff hyn ei ddefnyddio i ffurfio gwelliant y Cyngor a datblygu strategaeth-ar-dudalen. Mae'r Cyngor yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu modiwl e-ddysgu ar gyfer Swyddogion, Aelodau Etholedig ac Aelodau Craffu ynghylch llywodraethu a chraffu. Bydd y blaengynlluniau'n cynnwys Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor ac yn defnyddio Blaengynllun y Cyngor.

Gall y Pwyllgorau Craffu "alw i mewn" holl benderfyniadau'r Cabinet. Anfonir dolen at bob Cynghorydd i agenda'r Cabinet. Hysbysir Aelodau'r Pwyllgor Craffu o'r cofnodion/penderfyniadau er mwyn iddynt benderfynu a ydynt am "alw penderfyniad i mewn". Yn ystod 2020/21, ni chafodd unrhyw un o benderfyniadau Cabinet ei "alw i mewn". Gwahoddir Aelodau'r Cabinet i fynychu cyfarfodydd y pwyllgorau craffu lle maent ar gael i ymateb i'r herio ynghylch eu meysydd cyfrifoldeb. Mae presenoldeb Aelodau Cabinet wedi gwella'n sylweddol yn ystod 2020/2021.

Mae Nodau Llesiant y Cyngor yn parhau i gael eu hadrodd i'r holl bwyllgorau craffu, fel y gall agendâu a chofnodion y cyfarfodydd dystio.

Mae'r Cyfansoddiad hefyd yn cyflwyno'r cylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgorau craffu. Bob blwyddyn mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn llunio Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys mewnwelediad ôl-syllol o'r gwaith a gyflawnwyd gan bob un o'r Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn ystod blwyddyn y Cyngor. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020/19 i'r Cyngor Llawn a'i gymeradwyo ym mis Gorffennaf.

Cafodd Cyd-bwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ei sefydlu yn ystod 2016/17 (CBSMT a CBSRhCT) gyda'r nod o graffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a'i herio. Darparwyd hyfforddiant i Gynghorwyr ar y Cyd-bwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â'u rôl gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai 2017, mae'r Cyngor wedi cael rhaglen o hyfforddiant i Gynghorwyr.

Mae'r Bwrdd Rheoli Newid yn cynnwys Aelodau Cabinet. Oherwydd hynny, caiff diweddariadau eu derbyn. Caiff deilliannau a chynnydd eu hadrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, a'r Uwch Dîm Arwain, eto, yn fisol. Caiff adroddiadau chwarterol eu darparu i'r Cabinet er mwyn rhoi gwybodaeth am gynnydd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni deilliannau ei herio yng

nghyfarfodydd y pwyllgor craffu llywodraethu. Mae cyfarfodydd Uwch Reolwyr yn eu lle ar gyfer pob cyfarwyddiaeth i gyflwyno adroddiadau ar gynlluniau cyflenwi gwasanaeth.

Caiff y Cynghorwyr fynediad electronig i bapurau'r pwyllgorau fel y cânt eu cyhoeddi ac maent yn derbyn hyfforddiant statudol ac anstatudol parhau i'w cefnogi yn eu rôl fel rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Risg sydd wedi'i chymeradwyo, ac mae'n cynnwys Datganiad Polisi Rheoli Risgiau Corfforaethol. Mae angen i'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli risg cael eu hadolygu a'u diweddarau i sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu proses effeithiol er mwyn nodi a rheoli risgiau yn systematig yn y Cyngor, er mwyn sicrhau bod amcanion Polisi Rheoli Risg y Cyngor yn cael eu cyflawni.

Caiff pob Risg Gorfforaethol ei dynodi i Aelod Portffolio, Swyddog Arweiniol y Tîm Rheoli Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol i sicrhau bod llinellau cyfrifoldeb clir ac ymwybyddiaeth ar bob lefel o'r Cyngor. I gynorthwyo i reoli pob Risg Gorfforaethol, caiff Aelodau Tîm a Phartneriaid Allweddol hefyd eu nodi yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Yng Nghofrestr Risgiau'r Prif Swyddogion a'r Meysydd Gwasanaeth, caiff pob risg/problem ei dynodi i Berchennog Risg, Aelodau Tîm a Phartneriaid Allweddol. Mae'r risgiau/ problemau yn Log Risgiau'r Rhaglen Rheoli Newid wedi'u dynodi i'r Uwch Swyddog Cyfrifol.

Mae gan y Cyngor Restr Wirio Categori Risg fel rhan o'i broses nodi risgiau. Nod hyn yw sicrhau y caiff y broses o nodi risgiau ei gwneud mewn ffordd strwythuredig i helpu i sicrhau bod pob categori posibl o risg yn cael eu hystyried yn hytrach na'r risgiau cychwynnol a ddaw i'r meddwl.

Mae'r Rhestr Wirio'n seiliedig ar Fodel PESTLE a ddefnyddir yn helaeth (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol). Adolygwyd y Rhestr Wirio gan ymgynghori â meysydd gwasanaeth ar draws y Cyngor er mwyn ystyried gofynion risg y Ddeddf. Mae'r Rhestr Wirio hefyd wedi'i diweddarau i adlewyrchu meysydd risg eraill mewn perthynas â phartneriaethau, caffael ac enw da, er enghraifft.

Mae diwylliant hefyd wedi'i ychwanegu yn Gategori Risg i sicrhau bod y Cyngor yn ystyried risg o safbwynt llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae'r pum ffordd o weithio (Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys, Cydweithio ac Atal) hefyd wedi'u hychwanegu i'r Rhestr Wirio i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu ynghylch risgiau.

Caiff Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor ei baratoi gan ddefnyddio cyfuniad o'r ffynonellau risg canlynol:

- Risgiau Corfforaethol a nodwyd yng Nghofrestr Risgiau Corfforaethol y flwyddyn flaenorol.
- Dadansoddi a grwpio'r canlynol:
  - Y risgiau a nodwyd sydd â sgôr o 12 neu uwch yng Nghofrestrau Risg Prif Swyddogion a Meysydd Gwasanaeth.
  - Y problemau a nodwyd yng Nghofrestri Risg Prif Swyddogion a Meysydd Gwasanaeth.
  - Gweithdai Nodi Risgiau ar gyfer y Tîm Rheoli Corfforaethol a Chynghorwyr.

Mae Rheoli Risg yn rhan greiddiol o Becyn Cymorth Caffael y Cyngor sy' helpu adrannau gwasanaeth a staff wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau. Mae'n helpu Caffael i reoli disgwyliadau rhanddeiliaid a hwyluso canlyniadau sydd oddi mewn i lefel goddefiant risg y Cyngor.

Mae'r Bwrdd Cyllideb, sy'n cynnwys y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol, yn cwrdd yn fisol i graffu ar berfformiad gwasanaeth yn erbyn cyllidebau. Lle mae anawsterau ariannol yn bodoli, caiff y Prif Swyddogion, gyda'r Aelodau Portffolio Cabinet perthnasol, eu herio ac mae gofyn iddynt esbonio a darparu datrysiadau posibl. Mae'r Cabinet yn ystyried Datganiadau Monitro Cyllideb yn chwarterol.

Mae achosion busnes sy'n cefnogi cynigion am ostyngiadau yn y gyllideb yn darparu'r sail resymegol i'r opsiynau a gyflwynir a'r argymhellion a wneir. Lle y bo'n briodol, maent yn cynnwys gwybodaeth meincnodi ac asesiadau risg a chydraddoldeb. Caiff y rhain eu hystyried gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor ac ymgysylltir ac ymgynghorir â'r holl randdeiliaid yn eu cylch.

Mae Datganiadau Gosod Cyllideb, Monitro Cyllideb ac Alldro Cyllideb yn dilyn templed cyson a dyma'r fformat hefyd i adrodd i'r Bwrdd Cyllideb a'r Cabinet. Caiff y gwaith o gyflawni arbedion a gymeradwyr ei fonitro gan y Grŵp Llywio Rheoli Newid a'r Bwrdd Cyllideb.

Mae dogfennau Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Chyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys canllawiau a chyfarwyddiadau i staff ac yn rhoi manylion y trefniadau sydd yn eu lle. Maent yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben ac yn berthnasol. Mae angen diweddarur Rheolau Gweithdrefn Ariannol ac elfennau eraill o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau a fu yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r broses gyllideb flynyddol yn cwmpasu cynllunio ariannol tymor canolig gyda'r bwriad bod penderfyniadau'r gyllideb yn cydweddu ag amcanion llesiant, cynllunio rheoli asedau a'r Cynllun Sefydliad Iach. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, sydd wedi'i gymeradwyo,

yn cwmpasu cyfnod o bedair blynedd ac ar hyn o bryd mae cyllideb gytbwys wedi'i gosod ar gyfer blwyddyn un a diffygion cyllideb dangosol ar gyfer blynyddoedd dau i bedwar (yn seiliedig ar dybiaethau sydd wedi'u nodi).

Ym mis Ebrill 2019 gwnaeth Archwilio Cymru gyflwyno eu Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2017-18, sy'n amlygu eu pryderon o'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor gan ddatgan bod "yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor yn sylweddol." Roedd llythyr dilynol oddi wrth Archwilio Cymru ym mis Mai 2019 hefyd yn amlygu eu pryderon ynghylch llywodraethu a threfniadau craffu yn y Cyngor. Nododd y llythyr hefyd yr heriau allweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, sef:

- *Sefyllfa ariannol;*
- *Pwysau ar wasanaethau;*
- *Arweinyddiaeth a chapasiti;*
- *Llywodraethu.*

Gwnaeth Archwilio Cymru gyflwyno eu Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2018-19, ym mis Ionawr 2020, a'r tri phrif gasgliad oedd:

- Gwnaeth y Cyngor gydymffurfio â'i gyfrifoldebau sy'n berthnasol i adrodd ariannol a'r defnydd o adnoddau;
- Ni ddynodwyd unrhyw faterion sylweddol o'r hawliadau a'r ffurflenni ardystio grantiau
- Ar y pryd, nid oedd Archwilio Cymru'n fodlon fod gan y Cyngor drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn y modd y mae'n defnydd ei adnoddau.

Cyhoeddodd Archwilio Cymru Asesiad o Gynnydd y Cyngor i Fynd i'r Afael â Phryderon Allweddol ym mis Mawrth 2021 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Cyflwynodd yr adroddiad asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor ar fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn llythyr Archwilio Cymru a anfonwyd i'r Cyngor ym mis Mai 2019, ynghyd â'r rhai a nodwyd yn adroddiad John Gilbert ym mis Medi 2019, ac adroddiad Asesid Cyflym y Bwrdd Gwella a Sicrwydd ym mis Rhagfyr 2019.

Cafodd ei gydnabod y dangosodd y Cyngor gadernid yn ei ymateb i'r heriau diweddar a gwnaeth gynnydd ar ddatblygu a cynllun gwella. Ond mae angen iddo fynd i'r afael ar frys â'i ddiffyg capasiti i yrru'r trawsnewid sydd ei angen a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ganddo i gryfhau ei gadernid dros y tymor canolig i hir.

Mae'r meysydd o bryder sy'n weddill wedi'u cyflwyno yn adroddiad Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2021 a gwnaed cyfres o argymhellion. Yn yr adroddiad, nododd Archwilio Cymru yr

heriau presennol sy'n wynebu'r Cyngor, a'r themâu/meysydd allweddol canlynol y mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt:

- Llywodraethu
- Arweinyddiaeth
- Trawsnewid
- Capasiti
- Sefyllfa ariannol tymor canolig a chadernid ariannol
- Heriau i wasanaethau
- Rheoli perfformiad
- Gweithio mewn partneriaeth

Yn adroddiad mis Mawrth 2021, nododd Archwilio Cymru hefyd fod gofyn i'r Cyngor ymateb mewn cyfarfod un mis ar ôl derbyn yr adroddiad. Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor Llawn / Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Sefydlu'r Maer ar 7<sup>fed</sup> Mai 2021 a gyflwynodd ymateb y Cyngor i adroddiad Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2021. Roedd yn crynhoi'r camau a oedd eisoes wedi'u cwblhau a'r camau pellach y bydd angen i'r Cyngor eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Datblygodd y Cyngor Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella, a gytunwyd gan y Bwrdd Gwella a Sicrwydd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cais y Cyngor am gymorth. Mae'r cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan Archwilio Cymru. Buddsoddodd y Cyngor £705,000 mewn staffio, fel rhan o'r cynllun tymor ariannol tymor canolig, i fynd i'r afael â'r materion capasiti a fynegwyd gan Archwilio Cymru.

Caiff y Cynllun Archwilio Mewnol ei lunio gan ddefnyddio strategaeth sy'n seiliedig ar risg. Mae adroddiadau Archwilio Mewnol unigol yn rhoi barn ar drefniadau rheoli risg a rheoli mewnol.

Lluniwyd yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/2021, sy'n cynnwys barn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, ac fe'i cyflwynwyd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar 6 Medi 2021. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol farn bod yr amgylchedd y rheoli mewnol, trefniadau rheoli risg a threfniadau llywodraethu ar gyfer 2020/2021 yn foddhaol.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cwrdd oddeutu bob chwe wythnos. Fe'i cadeirir yn annibynnol gan aelod o grŵp gwleidyddol nad yw mewn grym. Mae cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilwyr Allanol yn bresennol ym mhob cyfarfod. Mae'r holl gyfarfodydd yn cael eu cofnodi; cyhoeddir y cofnodion ac mae'r rhain ar gael i'r cyhoedd. Mae cofnodion ac agendâu'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal a'u cadw ar system gweinyddiaeth ddemocrataidd y Cyngor. Darperir hyfforddiant i'r Cynghorwyr o bryd i'w gilydd ac yn ôl y

gofyn. Yn 2021/2022, caiff y Pwyllgor Archwilio ei alw'n Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad cenedlaethol 'Gwella ein Perfformiad': mynd i'r afael â thwyll yng Nghymru, yn 2020 a ddynododd nifer o argymhellion cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyngor yn datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn ac mae eisoes wedi ymateb i rai o'r materion a godwyd.

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer casglu, storio, defnyddio a rhannu data yn ddiogel, yn cynnwys prosesau i ddiogelu data personol. Ers gweithredu Rheoliadau GDPR ar 25 Mai 2018, mae'r Swyddog Diogelu Data wedi paratoi'r holl ddogfennau perthnasol ac mae'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn parhau i gynnig hyfforddiant i staff a Chynghorwyr i weithredu'r ddeddfwriaeth. Cynhaliwyd adolygiadau o'r dulliau prosesu data presennol.

Mae'r Cyngor yn aelod o Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), ac o'r herwydd bydd yn mynd i gytundebau WASPI pan fydd yn rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid sydd hefyd yn rhan o'r cytundeb. Pan na fydd rheolwr y data yn aelod o'r cytundeb, mae protocolau rhannu gwybodaeth yn eu lle a fydd o gymorth i rannu gwybodaeth bersonol. Lle nad yw'n briodol, caiff Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ei weithredu sy'n mynd i'r afael â'r rheolaethau priodol. Mae'r sefydliad wedi'i ardystio i safon ISO 27001 ac mae hefyd yn cydymffurfio â gofynion diogelwch rhannu gwybodaeth y safon.

Mae adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rhan o'r herio mewn perthynas â ffurflenni chwarterol, ffurflenni statudol, ffurflenni pwyllgorau craffu, a chyfarfodydd bwrdd perfformiad a hunan-werthuso. At hyn, mae ansawdd data, dilysu a dadansoddi data a'r defnydd cyffredinol o ddata wedi'u cynnwys yng Nghynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor. Mae'r Cynllun hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i gydweddu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**f) Defnyddio arferion gweithio da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol.**

Mae holl agendâu, adroddiadau a chofnodion pwyllgorau yn cael eu hysgrifennu, eu cyfathrebu a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor er sylw'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Mae'r rhain ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ers mis Medi 2020 ac oherwydd pandemig COVID-19, caiff holl gyfarfodydd y pwyllgorau eu cynnal o bell drwy Microsoft Teams. Caiff y cyfarfodydd pwyllgor hyn eu recordio a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Caiff adroddiadau eu herio gan swyddogion fel rhan o'r trefniadau llywodraethu (e.e. Grŵp Llywio Rheoli Newid) a chyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor trwy'r Tîm Rheoli

Corfforaethol a chyfarfodydd Rheolwyr Gwasanaethau. Mae hyn yn fodd o sicrhau cydbwysedd rhwng y lefel gywir o wybodaeth ar gyfer tryloywder a'r gallu i wneud penderfyniad cywir.

Mae Aelodaeth y Pwyllgorau, Presenoldeb, Datganiadau mewn Cyfarfodydd, Buddiannau Cofrestredig a Chynrychiolaeth Cynghorwyr ar Gyrrff Allanol, yn cael eu monitro a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor a'u cynnwys yn Adroddiadau Blynyddol y Cynghorwyr.

Caiff adroddiad ar y Taliadau a roddir i Gynghorwyr etholedig ei gyhoeddi'n flynyddol ar Wefan y Cyngor a'i ddiweddarau gydag unrhyw newidiadau trwy gydol y flwyddyn ariannol. Mae'r holl wybodaeth hon hefyd yn cael ei hadrodd i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW).

Cyhoeddwyd Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2019/20 ym mis Hydref 2020, gan gyflawni dyletswydd y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cynllun blaengar sy'n dwyn y teitl Ffocws ar y Dyfodol - Llesiant yn ein Cymuned 2017-2022.

Cyflwynir Datganiadau Ariannol Blynyddol er cymeradwyaeth y Cyngor Llawn yn dilyn Archwiliad Allanol gan Archwilio Cymru. Mae hyn yn ofyniad statudol. Fel rhan o gymeradwyaeth flynyddol y Cyngor o Gyllideb y flwyddyn nesaf ("Gofynion y Gyllideb a'r Dreth Gyngor – Dadl ar Gyflwr y Cyngor"), bydd y Prif Swyddog Cyllid yn rhoi sylwadau ar gadernid yr amcangyfrifon a pha mor ddigonol yw'r cronfeydd wrth gefn.

Dangosir y ffordd y defnyddir adnoddau'r Cyngor i gyfrannu at yr Amcanion Llesiant yn Adroddiad y Gyllideb.

Mae argymhellion neu gynigion er mwyn gwella o Adroddiadau Gwella Blynyddol Archwilio Cymru hefyd yn cael eu hystyried. Mae'r adroddiadau hyn yn dal i gael eu hystyried wrth ddylunio gwelliannau.

Cyflwynir diweddariadau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Cyngor hefyd cyn iddynt gael eu cymeradwyo'n ffurfiol.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon Blynyddol yn cael ei lunio yn ôl Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) y mae pob Awdurdod Lleol yn ei ddilyn. Mae hyn yn sicrhau cysondeb o ran adrodd sy'n caniatáu cymariaethau a meincnodi ystyrlon. Caiff cwblhau a chyhoeddi eu llywodraethu gan gyfraddau amser statudol. Caiff data perfformiad cyfyngedig ei gynnwys yn y cyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio.

Caiff asesiad blynyddol ei gynnal o'r modd y cymhwysir egwyddorion y Fframwaith Llywodraethu. Ymhlith y rhai sy'n ymwneud â hyn mae nifer o swyddogion allweddol ac



aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, a hefyd Cyngorwyr yn rhinwedd eu cyfrifoldebau pwyllgor, e.e. y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol.

Mae'r broses asesu yn cynnwys cymharu trefniadau presennol y Cyngor yn erbyn y rhestr wirio a gyhoeddir gan CIPFA/SOLACE. Caiff y rhestr wirio hon ei diweddarau gan swyddogion allweddol, a darperir tystiolaeth i ategu unrhyw newidiadau a fu yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhestr wirio, y gwerthusiadau a'r dystiolaeth yn cael eu gwerthuso'n annibynnol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol. Bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac Archwilio Cymru yn adolygu ac yn gwerthuso'r rhestr wirio, unrhyw gamau gwella sy'n deillio o'i chwblhau, a fersiwn drafft y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae'r broses asesu a chanlyniadau'r asesiad yn cael eu cyhoeddi yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae camau gweithredu ar gyfer gwelliant yn cael eu cynnwys yn system monitro cynllun gweithredu corfforaethol yr awdurdod sef y 'System AAP', neu Gynlluniau Gweithredu Archwilio ac Arolygu.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno proses ar gyfer monitro adroddiadau Archwiliad Allanol, Rheoleiddio ac Archwilio a'u camau gweithredu / argymhellion. Mae hyn yn cynnwys gwirio perfformiad yn yr holl adroddiadau a chynnal system fonitro. Caiff adroddiadau eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Uwch Dîm Rheoli gan gynnwys diweddariad am gynnydd a wnaed yn erbyn pob cam gweithredu / argymhelliad. Gall y Pwyllgor Llywodraethu / Archwilio ddefnyddio'r data yma i lywio trafodaethau a/neu gallant gael mynediad i'r data os yw'n ofynnol.

Mae'r arfer o herio gan gymheiriaid yn rhan o'r trefniadau herio perfformiad. Mae'r gwaith yma'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i gydweddu â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Caiff heriau cymheiriaid, adolygiadau ac arolygiadau gan gyrrff Rheoleiddio eu croesawu fel modd o ddarparu sicrwydd pellach ynghylch cyflenwi gwasanaethau neu i ddynodi cyfleoedd i wella. Mae cysylltiadau da yn bodoli ag Archwilio Cymru, ESTYN, Rheoleiddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a rheoleiddwyr, comisiynwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Cynhaliwyd mwy o waith partneriaeth a'r arfer o herio gan gymheiriaid fel rhan o'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella ac yn ymateb y Cyngor i effeithiau pandemig Covid-19. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sawl Cyngor arall wrth ymateb i ddeddf newydd Deddf

Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Mae hyn yn cynnwys yr arfer o herio gan gymheiriaid a fydd yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant yn well er mwyn gwireddu gweledigaeth y Cyngor. Adeiledir ar hyn wrth i'r Cyngor ddatblygu ei brosesau ymhellach mewn ymateb i'r Ddeddf newydd.

Mae nifer o drefniadau cydwasanaethau yn bodoli y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt. Caiff cydwasanaethau eu cynnal gan Awdurdod Arweiniol, ac mae'r gwasanaethau hynny'n dilyn y trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle gan yr Awdurdodau Arweiniol hynny. Mae trefniadau penodol eraill yn eu lle hefyd ar gyfer adrodd ar berfformiad, defnyddio adnoddau a materion llywodraethu pwysig eraill sydd wedi'u sefydlu ar gyfer gwahanol bartneriaethau neu gydwasanaethau.

Ar ddiwedd 2018/2019 dechreuodd y Cyngor ar drefniant cydwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol. Dechreuodd y gwasanaeth archwilio mewnol rhanbarthol newydd weithredu ym mis Ebrill 2019, a chaiff ei weithredu ar y cyd rhwng Cyngor Merthyr Tudful, Cyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bro Morgannwg. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Gwnaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ymgymryd â rhaglen gynhwysfawr flynyddol o waith yn seiliedig ar gynllun lle mae'r risgiau wedi'u hasesu.

Mae gan y Cyngor Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n weithredol ac yn effeithiol ac sy'n cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygio) 2018. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n newid i'r 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio' o 1 Ebrill 2021 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau, ac mae wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu Deddf Llywodraethu ac Etholiadau 2021. Caiff ei gadeirio'n annibynnol gan aelod o'r grŵp gwleidyddol nad yw mewn grym.

Mae Archwilwyr Allanol y Cyngor yn cynnal rhaglen flynyddol gynhwysfawr o waith y maent yn adroddi arni. Mae dogfennau Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Chyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys canllawiau a chyfarwyddiadau i staff ac yn rhoi manylion y trefniadau sydd yn eu lle.

Ymgynghorir â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Tîm Rheoli Corfforaethol a chynghorwyr a swyddogion allweddol eraill ynglŷn â meysydd archwilio sydd i'w cynnwys yn y cynllun blynyddol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mae'r Pennaeth Archwilio yn ysgrifennu Barn ac Adroddiad Blynyddol am yr amgylchedd rheoli, rheoli risg a threfniadau llywodraethu yn y cyngor gan ddefnyddio'r gwaith a gwblhawyd drwy gydol y flwyddyn yn sail i ffurfio barn. Mae'r farn hon hefyd yn cael ei chynnwys yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ac yn llywio'r Datganiad hwnnw.

## 5. ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

O leiaf unwaith bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei Fframwaith Llywodraethu, gan gynnwys y system reolaeth fewnol.

Cynhelir adolygiad ac asesiad blynyddol o effeithiolrwydd y modd y cymhwysir egwyddorion y Fframwaith Llywodraethu. Ymhlith y rhai sy'n ymwneud â hyn mae nifer o swyddogion allweddol ac aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, a hefyd Cynghorwyr yn rhinwedd eu cyfrifoldebau pwyllgor, e.e. y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol.

Mae'r broses asesu yn cynnwys cymharu trefniadau presennol y Cyngor yn erbyn y rhestr wirio a gyhoeddir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE). Caiff y rhestr wirio hon ei diweddarau gan swyddogion allweddol. Darperir tystiolaeth i ategu sylwadau'r rhestr wirio wedyn caiff y gwerthusiadau a'r dystiolaeth eu gwerthuso'n annibynnol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Archwilio Cymru yn adolygu ac yn gwerthuso'r fersiwn ddrafft.

Caiff y broses asesu a chanlyniadau'r asesiad eu cyhoeddi yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cynhaliodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a swyddogion allweddol y Cyngor adolygiad yn seiliedig ar ganllawiau CIPFA/SOLACE er mwyn sicrhau cwblhau'r Datganiad Llywodraeth Blynyddol. Nodir unrhyw fylchau yn y trefniadau llywodraethu ac adolygir effeithiolrwydd y trefniadau presennol.

Gwnaed nifer o argymhellion i gryfhau'r trefniadau llywodraethu yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20, a chyflwynir cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn isod:

Rhif	Argymhelliad	Cynnydd
1	Mae'n ofynnol cwblhau ffurflenni Adolygiad Datblygiad Personol i sicrhau bod y Cynghorwyr yn cwblhau'r holl hyfforddiant a datblygiad perthnasol i gyflawni eu rolau a'u dyletswyddau.	Wedi'i weithredu'n rhannol.  Mae'r rhan fwyaf o adolygiadau wedi'u cwblhau. Mae Gwasanaethau Democrataidd ar waith â chaffael hyfforddiant priodol.

Rhif	Argymhelliad	Cynnydd
2	Mae angen bolisi a phrotocolau sy'n ymwneud â Gwrth-dwyll, Llygredd a Llwgwrwobraeth gael eu cymeradwyo'n ffurfiol.	Wedi'i weithredu'n rhannol.  Mae polisiau wedi'u diweddarau a gwnaed gwaith pellach i adlewyrchu arferion gorau ynddynt. Disgwylir y byddant yn barod i'w cymeradwyo yn 2021.
3	Mae angen hysbysu'r Polisi Chwythu Chwiban i'r staff.	Wedi'i weithredu.  Cadarnhawyd bod hyn wedi'i anfon i staff drwy e-bost ym mis Tachwedd 2020.
4	Dylid cyflwyno Adroddiad Blynyddol am gwynion corfforaethol i'r Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio neu Graffu.	Heb ei weithredu.  Caiff hyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Phwyllgor Craffu perthnasol a hefyd i'r Cabinet erbyn mis Hydref 2021.
5	Dylid sicrhau bod Blaengynlluniau ar gael ar y fewnrwyd.	Wedi'i weithredu.  Mae Blaengynlluniau Craffu, y Cabinet a'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gael drwy dudalennau rhyngwyd y Cyngor ac ar modern.gov.
6	Mae'n ofynnol diweddarau ac adolygu y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.	Heb ei weithredu.  Mae'r Rheolwr Grŵp Eiddo Corfforaethol ar waith ag adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau. Disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn 31 <sup>ain</sup> Mawrth 2022.
7	Mae angen parhau i ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor gan gynnwys y Dangosfwrdd Corfforaethol yn unol â Chynllun Gwella'r Cyngor.	Wedi'i weithredu'n rhannol.  Mae hyn wedi'i gynnwys yn natblygiad y Dangosfwrdd Corfforaethol. Caiff hyn ei fireinio ymhellach fel rhan o Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor.
8	Argymhelliad Blaenorol Mae angen diweddarau Rheolau Gweithdrefn Ariannol ac elfennau eraill o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau a fu dros y blynyddoedd diwethaf.	Heb ei weithredu.  Mae gwaith yn parhau i ddiweddarau'r Cyfansoddiad. Mae hyn hefyd yn rhan o'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella.

Rhif	Argymhelliad	Cynnydd
		<p>Gwnaed newidiadau fesul rhan ond mae adolygiad pellach yn cael ei ystyried a/neu eu disodli'n gyfan gwbl â fformat diwygiedig.</p> <p>Roedd bwriad i wneud rhai diwygiadau i'r rheolau gweithdrefn ariannol yn ystod 2020 ond trechwyd hyn gan alwadau yn sgil y pandemig.</p>
9	<p>Argymhelliad Blaenorol</p> <p>Oddi fewn i Gyfansoddiad y Cyngor mae gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr rolau arweinyddol nodedig wedi'u diffinio sydd wedi eu cyflwyno mewn nifer o feysydd. Mae angen adolygu'r maes hwn am fod angen diffinio a gwahaniaethu'n fwy clir rhwng rolau a chyfrifoldebau y naill a'r llall.</p>	<p>Wedi'i weithredu'n rhannol.</p> <p>Mae'r weinyddiaeth bresennol wedi bod yn ei lle am 4 blynedd a gwnaed llawer o waith dros y 18 mis diwethaf yn diffinio rolau a chyfrifoldebau ac y mae hefyd yn rhan o'r gwaith sydd ar y gweill gyda'r Bwrdd Sicrwydd. Nid yw hyn o anghenraid wedi galw am ddiwygio'r Cyfansoddiad.</p>
10	<p>Mae angen diweddarau Polisi a Strategaeth Rheoli Risg 2014.</p>	<p>Heb ei weithredu.</p> <p>Bydd hyn yn rhan o Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor. Cynhaliwyd archwiliad mewnol ar drefniadau Risg y Cyngor. Cefnogwyd y dull gweithredu hwn i sicrhau bod y polisi'n ystyrlon o ran sut mae'r Cyngor yn adfer o'r pandemig.</p>
11	<p>Argymhelliad Blaenorol</p> <p>Mae adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rhan o'r her ynghylch ffurflenni chwarterol, ffurflenni statudol, cyfarfodydd pwyllgorau craffu, a chyfarfodydd bwrdd hunanwerthuso a pherfformiad. Mae angen adolygu'r gwaith yma er mwyn cydweddu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyd-fynd â Chynllun Gwella'r Cyngor.</p>	<p>Wedi'i weithredu'n rhannol.</p> <p>Mae hyn yn parhau ac yn rhan o Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor. Mae hwn yn ddarn sylweddol o waith ar draws y Cyngor: mae sawl swyddog atebol yn gweithio arno ar gyfer eu meysydd gwasanaeth. Mae'n debygol o gael ei gwblhau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22.</p>

Yn ystod 2020/21, gwelwyd yr effaith fawr mae pandemig Covid-19 wedi'i gael ar y sut y bu'n rhaid i'r Cyngor weithredu a'r trefniadau a'r prosesau llywodraethu a roddwyd yn eu lle i sicrhau y gallai barhau i gynorthwyo trigolion a busnesau yn ystod y flwyddyn anodd a heriol hon.

Drwy gydol 2020/21 cynhaliodd ac adolygodd y Cyngor ei system o reolaeth fewnol mewn nifer o ffyrdd. Yn benodol:

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol wedi cynnal adolygiadau a gynlluniwyd o'r gweithdrefnau rheoli mewnol, a threfniadau rheoli risg a llywodraethu ar draws adrannau ac ar draws amryw swyddogaethau yn y Cyngor. Cyhoeddwyd adroddiadau ar ôl cwblhau aseiniadau a'u dosbarthu i'r rheolwyr. Mae cynlluniau gweithredu wedi'u cynnwys yn system Cynlluniau Gweithredu Archwilio ac Arolygu'r Cyngor.

Er i'r pandemig gael rhywfaint o effaith ar gyflawni'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2020/2021, roedd lefel cwmpas yr Archwiliad Mewnol yn ddigonol i'r Pennaeth Archwilio allu cyflwyno barn.

Gwnaeth Covid-19 hefyd newid sut y cynhaliwyd gwaith archwilio yn 2020/21 a bu'r holl staff yn gweithio gartref dros y flwyddyn. Cynhaliwyd yr archwiliadau o bell gan ddefnyddio dulliau digidol, cynnal cyfarfodydd o bell, rhannu sgriniau ac anfon data a thystiolaeth yn electronig.

Er y bu'n rhaid i'r staff archwilio a'r sawl a archwiliwyd ddysgu llawer yn gyflym, mae pawb wedi addasu'n dda i'r ffyrdd newydd o weithio. Gwnaeth yr archwiliadau gymryd mwy o amser mewn rhai achosion am fod ymatebion i adroddiadau drafft yn cymryd mwy na'r arfer lle bu gwasanaethau dan fwy o bwysau. Gofynnwyd i Archwilio Mewnol ohirio rhai archwiliadau yn sgil pwysau ar rai gwasanaethau a achoswyd gan bandemig COVID 19.

Bu staff Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn gweithio gartref gan gael mynediad i systemau o bell ag offer a chymorth TGCh.

Mae'n debygol y bydd y gwasanaeth yn parhau i gael ei gyflawni o bell hyd y gellir rhagweld gydag elfen o weithio yn y swyddfa / wyneb yn wyneb yn cael ei chyflwyno dros amser pan fydd y cyfyngiadau'n caniatáu.

Mae cofnodion ac agendâu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dangos bod archwiliadau mewnol, archwiliadau allanol (Archwilio Cymru) ac adroddiadau asiantaethau arolygu/rheoleiddio allanol eraill, wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor hwnnw. Maen nhw hefyd yn dangos bod swyddogion wedi'u galw i ymddangos gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i drafod eu hadroddiadau a'u cynlluniau gweithredu perthnasol, ac i gyflwyno diweddariadau pellach ar gynnydd yng nghyfarfodydd dilynol y Pwyllgor.

Cafodd Adroddiad yr Archwiliad Mewnol Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21, sy'n ymgorffori barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, ei lunio a'i gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar 6 Medi 2021.

Wrth ystyried canlyniadau'r gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21, canfuwyd bod y rheolaethau mewnol a rheoli risg yn foddhaol.

Wrth ystyried y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â phryderon ynghylch llywodraethu a'r cadernid sylweddol a ddangoswyd wrth ymdrin â'r pandemig dros y flwyddyn ddiwethaf, barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu hefyd yw ei fod yn foddhaol.

**Felly, barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer 2020-21 yw:**

### **Boddhaol**

Fodd bynnag, mae pryderon sylfaenol sylweddol yn dal i fod wedi'u nodi yn Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ym mis Mawrth 2021, yn benodol ynghylch y diffyg capasiti a chadernid ariannol tymor canolig i hir a allai, os nad eir i'r afael â nhw, arwain at farn negyddol yn y dyfodol. Rhaid i'r Cyngor barhau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn y Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella a'r argymhellion a wnaed yn Adroddiad Cynnydd Archwilio Cymru i sicrhau bod modd i hyn gael ei gynnal.

Mae'r pwyllgorau craffu wedi archwilio nifer o faterion fel rhan o'u rhaglen waith yn 2020/21. Caiff y rhain eu hadrodd yn eu Hadroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf 2021.

Ymhlith y wybodaeth a gaiff ei hystyried er mwyn llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol mae gwybodaeth rheoli perfformiad, gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, gwaith a wnaed gan yr Archwiliwr Allanol ac asiantaethau arolygu allanol eraill, gwaith Craffu, Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheolaeth Fewnol yn cynnwys gweithdrefnau, codau ymddygiad a pholisïau a rheolaethau rheolaeth ariannol fel y'u hamlinellir yng nghanllawiau CIPFA/SOLACE.

O safbwynt llywodraethu eang, roedd y Bwrdd Gwella a Sicrwydd a benodwyd gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gydag aelodau allanol annibynnol yn 2019 yn dal i fod yn ei le yn ystod 2020/21.

Ym mis Tachwedd 2019, gwnaeth Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) lansio'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol. Datblygwyd y Cod hwn yng nghyd-destun pryderon Cynyddol ynglŷn â chadernid a chynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol. Mae'r Cod yn cyflwyno'r egwyddorion a ddylai arwain awdurdodau wrth iddynt reoli eu harian a'r safonau penodol y dylent, yn y man lleiaf, geisio eu cyflawni. Mae'n egluro sut y dylai Prif Swyddogion Cyllid fodloni eu cyfrifoldeb statudol dros weinyddiaeth ariannol dda fel sy'n ofynnol yn adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn pwysleisio cyfrifoldeb ariannol cyfunol yr arweinyddiaeth gyfan gan gynnwys yr aelodau etholedig perthnasol.

Drwy gydymffurfio ag egwyddorion a safonau'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol, bydd modd i awdurdodau ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Er bod y Cod wedi'i lunio i fod yn hyblyg i natur, anghenion ac amgylchiadau awdurdodau unigol, lle pob awdurdod unigol yw penderfynu i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r Cod a nodi pa gamau y mae'n dymuno eu cymryd er mwyn bodloni'r safonau y mae'r Cod yn eu disgrifio. Disgwylir cydymffurfiaeth lawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 gyda blwyddyn ariannol 2020/21 yn flwyddyn gysgodi. Yn *Application of the Good Governance Framework 2020/21 CIPFA Guidance Bulletin 06* nodwyd y dylai'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol ar gyfer 2020/21 casgliad cyffredinol asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad â'r egwyddorion a'r safonau a gyflwynir yn y Cod. Hefyd, lle y bo materion neu feysydd sy'n dal i fod i'w gwella, dylid cynnwys y rhain yn y cynllun gweithredu.

Gwnaeth y Cyngor asesiad o'i gydymffurfiaeth bresennol â'r 6 egwyddor (arweinyddiaeth, atebolrwydd, tryloywder, safonau, sicrwydd a chynaliadwyedd) a'r 17 o Safonau a amlinellwyd yn y Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol. Nododd yr asesiad y gall y Cyngor ddangos cydymffurfiaeth â phob un o'r Safonau, ond caiff ei gydnabod y gellir gwneud gwelliannau pellach i wella cydymffurfiaeth yn ystod 2021-22.

Mae'r Materion Llywodraethu Arwyddocaol a ddynodwyd ar gyfer 2020/21 i'w gweld yn adran 6 ac maen nhw'n cymryd i ystyriaeth y diffiniad a ddynodwyd yn Atodiad 1.

Mae'r Materion Llywodraethu Arwyddocaol a ddynodwyd yn 2019/20 ynghyd â'r sefyllfa bresennol a ddiweddarwyd o ran eu statws wedi'u cynnwys yn adran 7.

## 6. MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL 2020/21

Materion	Sefyllfa'r DLIB a'r Camau a Gymerwyd/Gynlluniwyd 2020/21
<b>Pwysau Ariannol: Adnoddau ariannol cyfyngedig yn</b>	Cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig (y Cynllun Ariannol) 2020/21 i 2023/24 ar 4 Mawrth 2020 a dynododd amcangyfrif diwygiedig o ddiffyg cyllideb o £10 miliwn dros y cyfnod o 4 blynedd 2020/19 i 2023/24. Cafodd Cynllun Ariannol 2021/22 i 2024/25 ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r Cyngor ar 3 Mawrth 2021 a dynododd



<b>Materion</b>	<b>Sefyllfa'r DLIB a'r Camau a Gymerwyd/Gynlluniwyd 2020/21</b>
<p><b>erbyn galw cynyddol am wasanaethau a phrosiectau cyfalaf yn peri pwysau cyllideb sy'n effeithio ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.</b></p> <p><b>E.e. Gostyngiad yn yr arian oddi wrth Lywodraeth Cymru, diffyg buddsoddiad incwm, derbynebau cyfalaf, pecynnau gofal costus, gostyngiadau mewn arian grant.</b></p>	<p>amcangyfrif o ddiffyg cyllideb cronol o tua £13 miliwn dros gyfnod y Cynllun Ariannol yn seiliedig ar dybiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol.</p> <p>Er i'r Cyngor sicrhau bod ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn gydnaws â'i flaenoriaethau a'i amcanion llesiant, rhaid gwerthfawrogi bod y Cynllun hwn yn rhaglen dreigl sy'n cael ei diweddarau'n barhaus i ddiwallu amgylchiadau, datblygiadau a blaenoriaethau newydd. O ganlyniad, cydnabuwyd bod angen cryn dipyn o waith o hyd i gysoni'r gofynion gwariant yn llawn â'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r cyllid oedd ar gael. Mae Dyluniad Model Gweithredu'r Cyngor yn diffinio'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni'i fusnes, ac mae'n ategu Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, yr Amcanion Llesiant a "Strategaethau ar Dudalen" y Prif Swyddog. Bydd y Bwrdd Perfformiad yn monitro cyflawniad yn erbyn y mesurau llwyddiant a'r deilliannau dymunol. Ar ben hynny, mae'r Prif Swyddog Cyllid yn monitro cynaliadwyedd a chydnerthedd ariannol y Cyngor.</p> <p>Argymhellir y bydd y Cronfeydd Wrth Gefn Gyffredinol yn cael ei gosod ar £5.334 miliwn yn ystod cyfnod Cynllun Ariannol 2021/22 i 2024/25. Byddai hyn yn galluogi'r hyblygrwydd i'r Cyngor ymateb yn briodol i'r risg o orwariant cyllidebol posibl mewn cyllidebau gwasanaeth cyfnewidiol yn ogystal â mynd i'r afael â goblygiadau ariannol pwysau demograffig. Nid yw'n cael ei ystyried yn ddoeth i'r Cyngor ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ymhellach i gefnogi cynlluniau cyllideb refeniw'r dyfodol oherwydd y risg annerbyniol i'r Cyngor a'i adael yn agored i lefel annigonol o gronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â gorwariant refeniw posibl yn y dyfodol. Yn ychwanegol, mae lefel a pha mor ddigonol yw cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor hefyd yn destun craff gan reoleiddwyr allanol.</p>
<p><b>Goblygiadau pellach COVID-19.</b></p>	<p>Bydd goblygiadau Covid-19 yn cael effaith sylweddol ar y perfformiad ariannol yn 2020/21 a 2021/22 gan y cydnabyddir y bydd yn amhosibl cadw oddi fewn i'r Gyllideb heb gefnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn amhosibl rhagweld Setliadau Refeniw'r Dyfodol yn sgil effaith niweidiol Covid-19 ar yr economi.</p>

<b>Materion</b>	<b>Sefyllfa'r DLIB a'r Camau a Gymerwyd/Gynlluniwyd 2020/21</b>
	<p>Yn anochel, cafodd pandemig Covid-19 a'r cyhoeddiad am y cyfnod clo dilynol gan Lywodraeth DU ar 23 Mawrth 2020 effaith sylweddol ar economi'r DU. O'r herwydd, mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol o ganlyniad i gostau ychwanegol, colli incwm a chefnogi'r economi leol a thalwyr y dreth gyngor, a fel yr holl Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru mae'n ddibynnol ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru yn y tymor byr i ganolog i gynorthwyo â'i gynaliadwyedd ariannol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol ar gyfer 2020/21 yn gyfan i gynorthwyo Awdurdodau Lleol wrth iddynt wynebu heriau ariannol sylweddol yn sgil costau ychwanegol a cholli incwm. Heb gymorth ariannol parhaus gan Lywodraeth Cymru byddai'r Cyngor wedi wynebu diffygion cyllideb sylweddol a fyddai'n galw am leihau gwasanaethau a/neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Gosododd y Cyngor nifer o egwyddorion sy'n cydweddu â Chynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor ac adeiledir arno wrth i'r Cyngor adfer o'r pandemig a pharhau ar ei daith o drawsnewid a gwella.</p>
<b>Effaith y llifogydd</b>	<p>Yn ystod mis Chwefror 2020, gwnaeth Storm Dennis achosi llifogydd helaeth a difrod storm mewn ardaloedd penodol yn y Fwrdeistref Sirol a chanlyniad hyn oedd goblygiadau ariannol refeniw a chyfalaf i'r Cyngor. O ran gwariant Cyfalaf, cyflwynodd y Cyngor i Lywodraeth Cymru restr o waith atgyweirio a ddaeth i gyfanswm o £8.5 miliwn am y cyfnod o dair blynedd 2020/21 i 2022/23. Mae'r Cyngor wedi derbyn hysbysiad o £1.9 miliwn o gymorth ariannol ar gyfer 2020/21 ond mae'n parhau i aros am gadarnhad ar gyfer y blynyddoedd dilynol.</p>
<b>Materion Capasiti i'r Cyngor</b>	<p>O safbwynt llywodraethu eang, cododd nifer o faterion ystod y flwyddyn. Yn gryno dyma nhw:</p> <p>Mae Archwilio Cymru wedi mynegi pryderon sy'n ymwneud â diffyg capasiti yn y Cyngor sy'n amharu ar gynllunio effeithiol a chynllunio olyniaeth hanfodol. Rydym wedi cynyddu capasiti mewn meysydd</p>

<b>Materion</b>	<b>Sefyllfa'r DLIB a'r Camau a Gymerwyd/Gynlluniwyd 2020/21</b>
<b>Cyrhaeddiad Addysgiadol</b>	<p>allweddol ar draws y cyngor. Mae cam cyntaf ymarferiad capasiti'r Cyngor wedi'i gyflawni.</p> <p>I gefnogi gwelliannau mewn cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno paneli gwella corfforaethol gyda lleoliadau uwchradd ac ysgolion cynradd sy'n tanberfformio ac sy'n peri pryder. Ym mis Tachwedd 2020, cymeradwyodd y Cyngor strategaeth Codi Dyheadau, Codi Safonau. Fel rhan o'r strategaeth hon, mae amrywiaeth eang o bartneriaid yn ymwneud â gwella addysg gyda'r nod yn y pen draw o sicrhau 'llwyddiant i bob plentyn'. Mae gan y consortiwm rhanbarthol rôl allweddol yn helpu i godi cyrhaeddiad ar draws pob ysgol; datblygwyd pecyn cymorth pwrpasol sy'n cael ei gyflwyno ar draws pob sector. Diweddarwyd y cynllun yng ngoleuni'r cyfnodau clo parhaus.</p>
<b>Swyddi Parhaol Uwch Reolwyr</b>	<p>Cymeradwywyd penodiad parhaol y Prif Weithredwr gan y Cyngor Llawn ar 16<sup>eg</sup> Mehefin 2021 a chymeradwywyd penodiad parhaol y Dirprwy Brif Weithredwr gan y Cyngor Llawn ar 8<sup>fed</sup> Medi 2021.</p>
<b>Cryfhau Trefniadau Rheoli Perfformiad</b>	<p>Yn 2020-21, mae'r Cyngor wedi datblygu prosesau i ailgyflwyno adolygiadau busnes chwarterol. Yr enw ar hyn fydd 'Adolygiadau Gwella Perfformiad Chwarterol'. Mae'r Cyngor yn cynnwys Archwilio Cymru yn y broses fel sylwedydd. At hynny, unwaith eto fel rhan o'i Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella, mae'r Cyngor yn datblygu 'Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrwydd Ansawdd'. Mae hwn yn cyflwyno trefniadau a systemau'r Cyngor ynghylch rheoli perfformiad a sicrwydd ansawdd. Mae'r Cyngor yn defnyddio ei ddata'n well i gynorthwyo â gwaith rheoli perfformiad a sicrwydd ansawdd. Enghraifft o hyn yw datblygu dangosfwrdd corfforaethol. Caiff hwn ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau.</p>

<b>Materion</b>	<b>Sefyllfa'r DLIB a'r Camau a Gymerwyd/Gynlluniwyd 2020/21</b>
<b>Cryfhau trefniadau craffu</b>	Cryfhau Trefniadau Craffu: Yn 2020-21, gweithiodd y Cyngor gydag Aelodau ac uwch swyddogion i gynnal ymarferiad llinell sylfaen mewn perthynas â swyddogaeth craffu. Roedd hyn yn seiliedig ar arferion gorau (e.e. CIPFA, Archwilio Cymru) a'r hyn a ddysgwyd gan Gynghorau eraill. Gwnaed gwaith dadansoddi gan fwydo'n ôl i'r sawl a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr ymarferiad. Dynodwyd rhaglenni gwaith i wella'r swyddogaeth. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynorthwyo'r Cyngor drwy gydol y broses hon. Yn 2021-22, caiff y rhaglenni gwaith eu datblygu, yn arbennig mewn perthynas â'r broses gynefino.

## 7. MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL 2019/20 - DIWEDDARIAD

<b>Materion</b>	<b>SEFYLLFA BRESENNOL (2021)</b>
<b>Pwysau Ariannol: Adnoddau ariannol cyfyngedig yn erbyn galw cynyddol am wasanaethau a phrosiectau cyfalaf yn peri pwysau cyllideb sy'n effeithio ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.</b>	Adroddir bod diffyg cyllideb dros dro o £4.464 miliwn ar gyfer 2020/21 cyn gwneud trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn caniatáu i £3.830 miliwn gael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i gynorthwyo buddsoddiad mewn newid sefydliadol cynaliadwy ac ymrwymadau ariannol hysbys i'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys £802,000 i ariannu cost cyflawni'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella yn 2021/22. At hynny, caiff £634,000 ei drosglwyddo i'r Cronfeydd Cyffredinol wrth Gefn (yn cynnwys y £300,000 a gyllidebwyd).
<b>E.e. Gostyngiad yn yr arian oddi wrth Lywodraeth Cymru, diffyg buddsoddiad incwm, derbynebau cyfalaf, pecynnau gofal costus,</b>	Mae'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ar 31 <sup>ain</sup> Mawrth yn dod i gyfanswm o £5.334 miliwn, sef 4.0% o'r gyllideb refeniw net, gan felly gydymffurfio â nod y Polisi Cronfa Wrth Gefn Corfforaethol, lle mae'n ofynnol i'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol fod rhwng 3.5% a 4% o'r gyllideb refeniw net. Rhagamcanir y bydd y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yn parhau ar leiafswm o 3.7% o'r gyllideb refeniw net dros gyfnod Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021/22 i 2024/25. Cyfanswm y cronfeydd refeniw defnyddiadwy ar 31 <sup>ain</sup> Mawrth 2021 yw £18.5 miliwn.
	Gweler Adran 6 – 'Materion Llywodraethu Arwyddocaol 2020/21' i weld y sefyllfa bresennol a'r camau a gymerwyd / gynlluniwyd i fynd i'r afael â'r mater hwn.

<b>Materion</b>	<b>SEFYLLFA BRESENNOL (2021)</b>
<p><b>gostyngiadau mewn arian grant.</b></p> <p><b>Goblygiadau pellach COVID-19.</b></p>	<p>Fel llawer o sefydliadau eraill, bu'n rhaid i'r Cyngor newid y ffordd mae'n gweithio er mwyn ymateb i bandemig y coronafeirws. Golygodd hyn ddefnyddio mwy o dechnoleg. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r seilwaith a defnyddio mwy o galedwedd a meddalwedd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor weithio'n wahanol wrth symud ymlaen.</p> <p>Gwelwyd rhywfaint o oedi mewn rhai meysydd busnes yn sgil ymateb i'r pandemig, ond ni chafodd hyn effaith sylweddol ar y Cyngor, am i drefniadau gwahanol gael eu cyflwyno, neu am fod amserlenni bellach wedi'u bodloni. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y rheoleiddwyr ynglŷn ag ymateb y Cyngor i'r pandemig.</p> <p>Er mwyn ymateb i'r pandemig, datblygodd y Cyngor restr adnoddau, sy'n cynnwys ei staff. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i fonitro capasiti a sgiliau'n effeithiol ac effeithlon a, lle y bo angen, ailddyrannu staff ac adnoddau eraill i ddiwallu anghenion ein trigolion a blaenoriaethau'r Cyngor.</p> <p>Cynhaliodd y gwasanaethau asesiadau risg ac effaith. Diweddarwyd y gofrestr risgiau corfforaethol i adlewyrchu'r pandemig. Galluogodd hyn y Cyngor i ystyried dulliau gweithredu'n seiliedig ar risg, a chynhaliwyd mwy o adolygiadau o risgiau eleni.</p> <p>Gweithredodd y Cyngor ar unwaith i gydweithio (rhwng adrannau mewnol ac â phartneriaid allanol – yn cynnwys trefniadau presennol a rhai newydd) i ddiwallu anghenion ei drigolion. Enghraifft o hyn yw'r ffaith mai'r Cyngor a fu'n perfformio orau o ran gweinyddu grantiau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Gwnaeth y Cyngor gynnydd sylweddol ar ei raglen democratiaeth ddigidol. Mae hyn yn golygu y caiff cyfarfodydd pwyllgorau (gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet) eu cynnal drwy blatfform digidol ac maent yn hygyrch i'r cyhoedd. Defnyddiodd y Cyngor gyllid allanol i sicrhau bod hyn yn parhau, gan gynnwys datblygu cyfarfodydd hybrid lle gall Aelodau Etholedig neu Swyddogion fod yn rhan o'r cyfarfod o bell neu yn y lleoliad. Gwnaed y</p>

<b>Materion</b>	<b>SEFYLLFA BRESENNOL (2021)</b>
<p data-bbox="159 1633 431 1675"><b>Effaith y llifogydd</b></p>	<p data-bbox="472 243 1560 317">datblygiad hwn fel rhan o gyflawni Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor.</p> <p data-bbox="472 369 1560 1073">Defnyddiodd y Cyngor dechnoleg ddigidol i sicrhau ei fod yn dal i gyflawni ei wasanaethau. Mae hyn hefyd yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori. Addaswyd system deffoni'r Cyngor i gynorthwyo sut mae pobl yn cysylltu â'r Cyngor. Gwnaed gwelliannau i gysylltiadau rhwng gwasanaethau i sicrhau bod ymgysylltiad â'r cyhoedd yn parhau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sawl sydd heb fynediad i blatfformau digidol. O ganlyniad, llwyddodd y Cyngor i barhau i ymgysylltu, ond y bwriad yw ailgyflwyno dulliau wyneb yn wyneb (yn ychwanegol at y gwelliannau yma) pan fydd hynny'n ddiogel. Fel rhan o'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella, gwnaeth y Cyngor fwy i ymgysylltu â thrigolion y Fwrdeistref Sirol, a'u cynnwys, ynghyd â deall effeithiolrwydd y dulliau gweithredu yma. Mae dangosfwrdd corfforaethol y Cyngor (a ddatblygwyd fel rhan o'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella) hefyd yn monitro canmoliaeth a chwynion. Mae'r data yma'n bwydo i mewn i sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â thrigolion. Lluniwyd taflenni ffeithiau ynghylch sut yr ymatebodd y Cyngor i'r pandemig a bu'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid ynghylch sut mae rhaglenni gwaith allweddol (e.e. profi torfol) yn cael eu cyfathrebu.</p> <p data-bbox="472 1125 1560 1325">Fel Cynghorau eraill, defnyddiodd y Cyngor arian ychwanegol i ddiogelu ei sefyllfa ariannol. Defnyddiodd y Cyngor arian allanol hefyd i gyflawni mwy fel rhan o'i Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella. Gwelodd y Cyngor fwy o ymgysylltu ar draws ei dîm rheoli corfforaethol a'r Cabinet yn ystod y pandemig.</p> <p data-bbox="472 1377 1560 1493">Mae'r egwyddorion hyn yn cydweddu â Chynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor a datblygir hyn ymhellach wrth i'r Cyngor adfer o'r pandemig a pharhau ar ei daith o drawsnewid a gwella.</p> <p data-bbox="472 1633 1560 1833">Mae Llywodraeth Cymru'n dal i aros am gadarnhad gan Drysorlys Ei Mawrhydi am y cymorth ariannol disgwylidig tuag at atgyweirio difrod llifogydd ar gyfer cyfnod 2021/22 i 2022/23. Daeth y difrod llifogydd hyn yn sgil effaith ddinistriol Storm Dennis ym mis Chwefror 2020. Mae'r Cyngor yn dal i aros am benderfyniad terfynol ar gymorth ariannol sy'n dod i gyfanswm o £6.6 miliwn.</p>

<b>Materion</b>	<b>SEFYLLFA BRESENNOL (2021)</b>
<p><b>Bwrdd Gwella a Sicrwydd</b></p>	<p>Mae llawer o waith wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Bwrdd Gwella a Sicrwydd yn eu hymarferiad asesiad cyflym. Gweithiodd y Cyngor gyda chymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gryfhau ei sefyllfa.</p> <p>Datblygodd y Cyngor Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella. Datblygwyd y Cynllun hwn gan ddefnyddio cymorth Llywodraeth Cymru ac mae'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd wedi cytuno iddo fynd ymlaen i'r Gweinidog yn unol â'r amserlen a ddynodwyd. Cwblhawyd y gwaith o ddatblygu'r Cynllun yn 2020 ac felly mae'n cynnwys adfer o bandemig y coronafeirws. Mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â'r meysydd o bryder a ddynodwyd gan y bwrdd Gwella a Sicrwydd.</p> <p>Mae'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella yn ddogfen fyw sy'n galluogi i'r Cyngor ganolbwyntio ar gynaliadwyedd wrth adfer o'r pandemig, gan drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio a gwella'r arfer o gyflawni canlyniadau i'n trigolion. Bydd y Cynllun hwn yn darparu llwybr gwella 5 mlynedd i'r Cyngor.</p> <p>Mae ein Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella yn dynodi tri maes y mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â hwy ar frys er mwyn gallu cyflawni amcanion llesiant y Cyngor yn well, gan olygu gwell canlyniadau i drigolion Merthyr. Dyma'r 3 maes: Gwella ein Safonau Addysg; Gwella ein Cydnerthedd mewn Gwasanaethau Cymdeithasol; ac Adferiad Economaidd. Gan weithio gyda'n Bwrdd Gwella a Sicrwydd, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu gwelliant, gan ddefnyddio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ddiwallu anghenion trigolion Merthyr yn y ffordd orau.</p> <p>Ymgysylltwyd ymhellach â'r Aelodau Etholedig ynghylch y Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella. Mae hyn yn cydweddu â'r cymorth gan Lywodraeth Cymru a ddarparwyd gan Brif Weithredwr blaenorol profiadol.</p> <p>Mae'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd yn parhau yn ei le ac yn monitro'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella. Dynododd feysydd o gryfder a rhoi awgrymiadau o welliannau. Mae hyn yn cyd-daro â'r adroddiad sy'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mai 2021, i fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru.</p>

<b>Materion</b>	<b>SEFYLLFA BRESENNOL (2021)</b>
<b>Materion Capasiti i'r Cyngor</b>	<p>Mae cam cyntaf ymarferiad capasiti'r Cyngor wedi'i gyflawni. Yn sgil hynny, mae £705,000 wedi'i gynnwys yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Mae'r buddsoddiad hwn yn mynd i'r afael â meysydd o risg uchel. Bydd camau nesaf yr ymarferiad capasiti yn canolbwyntio ar ddarparu adnoddau i Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys dwy brif agwedd, sef cyflawni'r cynllun a chyflwr y Cyngor yn y dyfodol (o ganlyniad i newidiadau yn y Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella).</p> <p>Yn ychwanegol at hyn, defnyddiwyd cyllid allanol i helpu i gyflawni'r Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Chynghorau eraill ledled Cymru. Mae gan y Cyngor amryw brentisiaethau yn eu lle i fynd i'r afael â chynllunio olyniaeth a chynyddu capasiti i ateb gofynion cyflwr yn y dyfodol. Caiff y cynlluniau hyn eu hariannu'n fewnol ac yn allanol. Cymeradwyodd y Cyngor 5 prentisiaeth yn 2021/22 ac ymgorffori hyn yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig.</p>
<b>Cyrhaeddiad Addysgiadol</b>	<p>Yn sgil y pandemig a newidiadau i'r mesurau atebolrwydd, nid oes modd inni adrodd ar gyrhaeddiad addysgol. Fodd bynnag, mae gwella canlyniadau i'r holl ddysgwyr/disgyblion yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Rydym yn aros am ganllawiau diwygiedig gan Lywodraeth Cymru ar atebolrwydd er mwyn cynorthwyo datblygu fframwaith i adrodd ar gynnydd.</p>



## **Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020-21**

Mae llywodraethu da yn ymwneud â rhedeg pethau yn y ffordd gywir. Dyma'r modd y mae'r Cyngor yn dangos ei fod yn gwneud penderfyniadau er lles pobl yr ardal, mewn ffordd deg, gyfiawn ac agored. Mae hefyd yn gofyn am safonau ymddygiad sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau da – integriti cyfunol ac unigol, a bod yn agored ac yn onest. Dyma'r seiliau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion pobl leol. Y mae'n greiddiol i ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Heb lywodraethu da, bydd cynghorau'n cael trafferth i wella eu gwasanaethau.

**O'r gwaith adolygu, asesu a monitro parhaus a wnaed, rydym wedi dod i'r casgliad bod yma gydymffurfio cyffredinol â threfniadau llywodraethu cyfredol, ond mae nifer o welliannau a ddynodwyd sydd angen eu gweithredu er mwyn cryfhau'r trefniadau.**

**Gallwn gadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, bod y datganiad hwn yn darparu safbwynt cywir a theg.**

**Cynghorydd Lisa Mytton**  
**Arweinydd y Cyngor**  
**3<sup>ydd</sup> Tachwedd 2021**

**Ellis Cooper**  
**Prif Weithredwr**  
**3<sup>ydd</sup> Tachwedd 2021**

**Atodiad 1**

Wrth bennu'r hyn a allai gael ei gynnwys fel mater llywodraethu arwyddocaol, cafodd y canlynol ei ystyried:

Nid yw'n bosibl cael diffiniad unigol o fater llywodraethu arwyddocaol. Mae angen i Gynghorau ddefnyddio eu crebwyll wrth benderfynu a ddylid ystyried bod mater penodol yn syrthio i'r categori hwn ai peidio, ond ymhlith y ffactorau a allai fod yn ddefnyddiol wrth ddefnyddio'r crebwyll hwnnw mae'r canlynol:

- Mae'r mater wedi peryglu'n ddifrifol neu wedi atal cyflawni prif nod.
- Mae'r mater wedi arwain at yr angen i geisio arian ychwanegol i'w alluogi i gael ei ddatrys, neu wedi arwain at ddargyfeirio adnoddau'n sylweddol o agwedd arall ar y busnes.
- Mae'r mater wedi arwain at effaith faterol ar y cyfrifon.
- Mae'r pwyllgor archwilio, neu gyfwerth, wedi cynghori y dylid ei ystyried yn arwyddocaol at y diben hwn.
- Mae'r Pennaeth Archwilio wedi adrodd ei fod yn arwyddocaol, at y diben hwn, yn y farn flynyddol ar yr amgylchedd rheolaeth fewnol.
- Mae'r mater, neu ei effaith, wedi denu sylw cyhoeddus sylweddol neu wedi niweidio enw da'r sefydliad yn ddifrifol.
- Mae'r mater wedi arwain at gamau ffurfiol yn cael eu cymryd gan y Prif Swyddog Cyllid a/neu'r Swyddog Monitro.

## **Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau o Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

### **Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar Fawrth yr 31ain 2021 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cynnwys Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol a'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar Fawrth yr 31ain 2021 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

### **Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny i'w weld yn yr adran o fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol. Rwyf yn annibynnol o'r [cyngor [a'i grŵp] yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### **Pwyslais ar Fater – effeithiau COVID-19 ar brisio asedau eiddo'r Cyngor**

Tynnaf sylw at Nodyn 4 y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio cymal ansicrwydd prisiad perthnasol o ran adroddiad prisio eitemau eiddo penodol wedi'u hail-brisio yn 2019-20 yn sgil amgylchiadau wedi'u hachosi gan y pandemig COVID-19. Nid yw fy marn wedi ei haddasu mewn cysylltiad â'r mater hwn]

### **Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth perthnasol ar allu'r cyngor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

### **Gwybodaeth Arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol

am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

### **Adroddiad ynghylch gofynion eraill Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21;
- Mae'r wybodaeth yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

### **Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd o'r cyngor a'i amgylchedd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhim wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### **Cyfrifoldebau**

#### **Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 22, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn cysylltiad â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

## **Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Tachwedd y 5<sup>ed</sup> 2021

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

*Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol dros gynnal a chadw a chywirdeb gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Dydy gwaith wedi'i gyflawni gan archwilwyr ddim yn dwyn hyn i ystyriaeth ac yn unol â hynny, dydy'r archwilwyr ddim yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau posib i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol.*